**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD IAU, 22 TACHWEDD 2012**

**10.30am THURSDAY, 22 NOVEMBER 2012**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,
SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,
PENRALLT,
CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**01286 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 14-11-12

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dyfrig Jones |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Trevor Edwards | Tom Ellis | John Pughe Roberts |
| | Angela Russell | |

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | John Brynmor Hughes | Aeron M. Jones |
| | R.J. Wright | |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor /Council Chairman

**RHAGLEN**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2012, fel rhai cywir.

(copi yma- papur **gwyn**)

**5. YMATEB YR ADRAN ADNODDAU DYNOL I ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL – RECRIWTIO – PROFION HUNANIAETH**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg
(copi yma – papur **aur**)

**6. YMATEB YR ADRAN RHEOLEIDDIO I ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL – UNED TRWYDDEDU**

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio (copi yma – papur **llwyd**)

**7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

`Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Awst a 30 Medi 2012
(copi yma – papur **glas**)

**8. CYLLIDEB REFENIW 2012/13 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2012)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **melyn**)

**9. RHAGLEN GYFALAF 2012/13 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2012)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid
(copi yma – papur **aur**)

**10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol (copi yma – papur **pinc**)

**11. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13**

Atgoffa'r aelodau o'r hyfforddiant gan Gwmni Arlingclose ar y mater uchod am 2.00 o'r gloch ar 29 Ionawr 2013, yn Ystafell Glyder Fawr, Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon.

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2012/13 (copi yma – papur **gwyrdd**)

# AGENDA

## 1. APOLOGIES

To receive apologies for absence.

## 2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

## 3. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

## 4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee, held on 27 September 2012, be signed as a true record.

(copy herewith - **white** paper)

## 5. THE HUMAN RESOURCES DEPARTMENT'S RESPONSE TO THE RECOMMENDATIONS OF INTERNAL AUDIT – RECRUITMENT – IDENTITY CHECKS

To submit the report of the Senior Audit and Risk Manager (copy herewith – **gold** paper)

## 6. THE REGULATORY DEPARTMENT'S RESPONSE TO THE RECOMMENDATIONS OF INTERNAL AUDIT – LICENCING UNIT

To submit the report of the Head of Regulatory Department (copy herewith – **grey** paper)

## 7. OUTPUT OF THE INTERNAL AUDIT SECTION .

To submit the report of the Senior Audit and Risk Manager outlining the work of the Internal Audit Section for the period between 1 August and 30 September 2012 (copy herewith – **blue** paper)

## 8. 2012/13 REVENUE BUDGET – SECOND QUARTER REVIEW (SEPTEMBER 2012)

To submit the report of the Head of Finance (copy herewith – **yellow** paper)

## 9. CAPITAL PROGRAMME 2012/13 – END OF SECOND QUARTER REVIEW (SEPTEMBER 2012)

To submit the report of the Head of Finance
(copy herewith – **gold** paper)

## 10. TREASURY MANAGEMENT 2012/13 – MID-YEAR REVIEW

To submit, for information, the report of the Head of Finance on the Council's actual borrowing and investment during the current financial year (copy herewith – **pink** paper)

## 11. TREASURY MANAGEMENT STRATEGY STATEMENT 2012/13

To remind the members of the training by Arlingclose Company on the above matter at 2.00pm on 29 January 2013, in Ystafell Glyder Fawr, Council Offices, Penrallt, Caernarfon.

## 12. INTERNAL AUDIT PLAN 2012/13

To submit the report of the Senior Audit and Risk Manager on the progress of the Internal Audit Plan 2012/13 (copy herewith – **green** paper)

**PWYLLGOR ARCHWILIO 27-09-12**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Sion W. Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, John B. Hughes, Aeron Jones, Charles W. Jones, Dyfrig W. Jones, Angela Russell, Gethin G. Williams, R.J. Wright

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2012, fel rhai cywir.

**3. CYFRIFON TERFYNOL 2011/12**

**i) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon.

Mewn perthynas â chronfeydd a reserfau'r Cyngor, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y ffaith eu bod yn symiau eithaf sylweddol a'i fod ar hyn o bryd yn y broses o'u hadolygu. Nododd y byddai'n fuddiol sefydlu panel o aelodau'r pwyllgor er mwyn asesu'r risgiau perthnasol wrth gwtogi neu gadw'r gwahanol gronfeydd wrth lunio cyllideb 2013/14 ynghyd â'r Aelod Cabinet Adnoddau ag ef fel pennaeth.

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y panel – Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Aled Evans, Aeron Jones, Michael Sol Owen a Mr John Pollard.**

**ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

Yn unol â'r drefn Archwilio Blynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). 'Roedd Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012 yn ogystal â'r incwm a'r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2011/12.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriodd Arweinydd Ymgysylltu SAC at un camddatganiad nas cywiriwyd sef nad yw'r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth llawn mewn perthynas â chapio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn a'r celloedd sy'n llawn ar safleoedd Ffridd Rasus a Llwyn Isaf. Ym marn yr archwiliwr dylai'r Cyngor wneud darpariaeth o £2.477m yn y cyfrifon tuag at y gwath hwn. Fodd bynnag, nododd bod y Cyngor wedi neilltuo adnoddau o fewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn ac o fewn ei gyllidebau cyfalaf yn y dyfodol i dalu'r costau hyn.

Tynnwyd sylw gan yr Arweinydd Ymgysylltu at un gwendid perthnasol yn y rheolaethau mewnol sef bod cysoniad cyfrif banc incwm y Cyngor ar 31 Mawrth 2012 yn cynnwys eitem fantoli nas nodwyd o £4,143. Fodd bynnag, nododd bod y cyfrif wedi ei gysoni erbyn hyn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd Ymgysylltu at un pryder ynglyn ag agweddau ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu a'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol dan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu ac yn benodol balans y credydwyr. Nododd na fu adolygiad manwl o'r £15.5m o'r balans endidau "arall" er mwyn sicrhau bod y dosbarthiad yn briodol. Yn dilyn adolygiad o'r balans, nodwyd bod £5.6m wedi ei gamddosbarthu, ond erbyn hyn fe'i gywirwyd yn y datganiadau ariannol.

Nododd yr Arweinydd Ymgysylltu hefyd bod y Côd Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu manylion trafodion â phartion cysylltiedig yn ei gyfrifon. Er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol, ysgrifennwyd at yr aelodau yn gofyn am fanylion buddiannau partion cysylltiedig erbyn 11 Mai 2012. Ar ddiwedd y broses archwilio, 'roedd 8 unigolyn oedd yn aelodau o'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2011/12 yn parhau heb ymateb.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn gyffredinol yn diolch am waith yr archwilwyr ac yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod bod cyfrifon 2011/12 yn gywir a theg. Nododd iddo ymateb yn rhesymol i ddau o'r materion uchod sef cysoni cyfrif banc incwm y Cyngor ar 31 Mawrth 2012 sydd wedi ei ddatrys erbyn hyn a safle gwaredu gwastraff Cilgwyn yn ei

lythyr at yr Archwilydd Penodedig a thynnodd sylw'r pwyllgor at y paragraffau perthnasol o'r llythyr. Eglurodd y Pennaeth Cyllid ni chynhwyswyd mater y credydwyr yn y llythyr ond bod hynny yn fater ansoddol o ran dosbarthiad rhwng categoriau o gredydwyr, yn hytrach na chyfanswm yr holl gredydwyr yn y cyfrifon.

Mewn perthynas â safle Cilgwyn, eglurodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod ysbwriel wedi cael ei waredu ar y safle ers y 60au ac i gyn-Gyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfai yn 1973 ganiatau cais cynllunio i waredu ysbwriel yn swyddogol yno. Yn dechnegol, 'roedd y Cyngor hwnnw ac yn ddiweddarch cyn-Gyngor Bwrdeistref Arfon wedi dechrau gwneud darpariaeth ar gyfer adnewyddu a chapio sefyllfa Cilgwyn yr adeg hynny. Yn ddiweddarach 'roedd safleoedd Cilgwyn a Phenhesgyn ym Môn yn cael eu rhedeg gan Gwmni Gwastraff Môn Arfon. Daeth y trefniant hwnnw i ben yn Rhagfyr 2008 a phenderfynodd y ddau Gyngor i fewnoli'r trefniant, sef bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am safle Penhesgyn a Chyngor Gwynedd yn gyfrifol am safle Cilgwyn. Nododd bod y cwmni pan y'i sefydlwyd yn gyfrifol am adnewyddu a chapio'n ôl safle Penhesgyn ond 'roedd y cyfrifoldeb hwn mewn perthynas a safle Cilgwyn wedi aros gyda Chyngor Bwrdeistref Arfon, ac yn dilyn hynny Cyngor Gwynedd. Pan ddaeth y cyfrifoldebau hyn yn ôl i'r Cyngor ar ôl Rhagfyr 2008, 'roedd yn ofynnol i'r Cyngor wynebu'r gost. Nododd bod £8.807m wedi ei wario hyd at 31 Mawrth 2012, gyda £2.357m pellach wedi ei gadw yn y cyfrif Reserf Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd llithriad yn y gwir rhaglen waith. Cedwir £800,000 pellach yn ôl fel darpariaeth sy'n gwneud cyfanswm o £11.964m.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i Amanda Hughes a Derwyn Owen am eu cydweithrediad yn yr archwiliad.

**b) Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Fel yr uchod, adroddodd Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno sefyllfa ariannol y gronfa bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2011/12.

Nododd yr Arweinydd Ymgysylltu  nad oes unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol.

Fodd bynnag, cyfeiriodd Rheolwr Lleol SAC at un gwendid perthnasol yn y rheolaethau mewnol sef nad oedd y Cyngor yn gallu cynnig cyfrifiad manwl i ddilysu'r newid mewn gwerth ar y farchnad a ddatgelwyd yng nghyfrif y gronfa ac er gwaethaf cryn dipyn o waith ychwanegol gan swyddogion, erys gwahaniaeth, nad oes modd ei esbonio, o £100,000. Nododd bod angen i'r Cyngor roddi proses ar waith i ddilysu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau yn annibynnol a fyddai'n rhoddi mwy o reolaeth iddo tros gywirdeb y datganiadau.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y bwriad i

gyhoeddi adroddiad archwilio diamod bod cyfrifon y gronfa bensiwn am 2011/12 yn gywir a theg Nododd iddo ymateb i'r materion uchod yn ei lythyr at yr Archwilydd Penodedig a thynnodd sylw'r pwyllgor at baragraffau perthnasol y llythyr.

Codwyd cwestiynau gan rhai o'r aelodau ar y cyfrifon ac ymatebodd y swyddogion iddynt gan gynnwys y gost a'r buddion o wahanol ddulliau ar gyfer cyfrifo gwerth buddsoddiadau'r gronfa bensiwn ar y farchnad stoc.

**iii) Llythyrau Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar gyfrifon terfynol 2011/12, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid lythyrau drafft at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio. 'Roedd y "llythyrau cynrychiolaeth" hyn yn cynnwys gosodiadau ynglyn â datganiadau ariannol y Cyngor a datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2011/12. Eglurodd iddo ddrafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd, sef y Pwyllgor Archwilio.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**4. RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2011/12, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Mawrth 2011. Manylodd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Nododd y Pennaeth yr arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £941,479 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar adneuon, sy'n uwch na'r £699,850 a oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau lle 'roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**5. COFRESTR O ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo trefn o ymdrin ag adroddiadau archwilwyr allanol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd fanylion am adroddiadau'r Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers 2008 a oedd yn cynnwys adroddiadau blynyddol, adroddiadau achlysurol ac adroddiadau cenedlaethol.

Nododd mai gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r Pwyllgor Archwilio gyda'r pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Byddai hyn yn galluogi'r pwyllgor i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoddi crynodeb byr i'r Cabinet. Rhoddodd fanylion am enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol.

Argymhellodd y drefn isod i'w dilyn ar gyfer ymateb i'r gofynion uchod –
a) Y Pennaeth Strategol a Gwella i gadw cofrestr corfforaethol o adroddiadau archwilio allanol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis.
b) Yn dilyn derbyn adroddiad archwilio allanol, yr Aelod Cabinet perthnasol i gyflwyno adroddiad ar fuddion gweithredu'r argymhellion drafft i'r Pwyllgor Archwilio.
c) Y Pwyllgor Archwilio'n cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion.
ch) Y Pennaeth perthnasol i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau gwaith, gyda'r Aelod Cabinet yn gyfrifol am sicrhau cyflawni'r argymhellion.

Byddai mabwysiadu'r drefn hon yn sicrhau bod y pwyllgorau craffu'n gallu canolbwyntio ar graffu gweithrediad unrhyw argymhellion a ddeilliai o'r adroddiadau archwilio.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r drefn uchod ar gyfer cydlynu a rhoddi trosolwg ar adroddiadau archwilwyr allanol.**

## 6 . ADOLYGIAD 2012 O'R GWASANAETH BUDD-DÂL TAI A BUDD-DÂL TRETH CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Lleol SAC mai nod yr adolygiad hwn oedd ateb y cwestiwn *"A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu ei Wasanaethau Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth Cyngor yn debygol o arwain at welliant".* Nododd y daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â'r mwyafrif o agweddau ar ddarparu gwasanaethau budd-dâl tai a budd-dâl treth Cyngor, helpu'r Cyngor i reoli graddau'r newid a ddisgwylir yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rhoddodd amlinelliad o'r canfyddiadau, casgliadau a'r cynigion ar gyfer gwella.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn derbyn canfyddiadau SAC ac iddo ymateb i'r materion hyn a thynnodd sylw'r pwyllgor atynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo ymateb yr Adran Gyllid i argymhellion SAC.**

## 7. CYLCH GORCHWYL ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan y dylid paratoi Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol. Y Cylch Gorchwyl sy'n gosod allan yr hyn mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan ei wasanaeth Archwilio Mewnol.

Mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn esbonio sut mae Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni eu

dyletswyddau ac yn amlinellu siâp a ffurf y ffordd y byddai Archwilio Mewnol yn gwneud hyn.

Nododd y swyddog bod y Côd Ymarfer hefyd yn datgan y dylid adolygu'r Cylch Gorchwyl yn rheolaidd. Ni wnaed addasiadau iddo ers 2009, er y'i cadwyd dan adolygiad ers hynny. Er bod mwyafrif helaeth o Gylch Gorchwyl 2009 yn parhau'n berthnasol, mae'n amserol gwneud addasiadau bychan angenrheidiol er mwyn cywiro camsillafu, gwneud ystyr ambell frawddeg yn fwy eglur ac i ychwanegu cyfeiriad at y *Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.*

**PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cynnwys Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol a chefnogi'r Adain Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.**

## 8. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012-2015

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol tair blynedd y Cyngor a gymeradwywyd gan y pwyllgor ar 13 Chwefror 2012.

Nododd bod rhan 7.1 Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 ("y Côd Ymarfer") yn datgan bod rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol gynhyrchu strategaeth archwilio – mae'n ddatganiad lefel uchel o sut y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'i gylch gorchwyl a sut mae'n cysylltu i amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad.

Adroddwyd bod y Strategaeth yn cynnwys nifer o benawdau ynglyn â darpariaeth Archwilio Mewnol:

- pwrpas Archwilio Mewnol
- sut mae Archwilio Mewnol yn byw gwerthoedd y Cyngor
- sut ydym yn cynnal safonau
- pa archwiliadau sydd rhaid eu cyflawni'n flynyddol
- sut bydd archwiliadau pellach yn cael eu dewis
- cydweithio ac eraill
- mathau o archwiliad fyddai'n cael eu cynnal
- darpariaethau
- dulliau adrodd
- yr adnoddau sydd ar gael
- mesur ansawdd a gwelliant parhaus
- risgiau a wynebai Archwilio Mewnol

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015.**

## 9. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

### Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2012

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2012. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 9 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 4 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 5 adolygiadau grant
- 1 archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys dau adroddiad drafft sydd wedi eu rhyddhau a 26 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Recriwtio – Profion Hunaniaeth**

Nododd aelod i'r archwiliad hwn dderbyn categori barn "C" a gofynnodd os y cyflwynir adroddiad pellach i'r pwyllgor ar yr archwiliadau a dderbyniodd y categori barn hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai targed cwblhau'r gwaith dilyniant i'r archwiliad hwn yw 31 Rhagfyr 2012.

**PENDERFYNWYD gwahodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.**

**Uned Drwyddedu**

Nodwyd i'r archwiliad hwn dderbyn categori barn "C"ac awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio i'r cyfarfod nesaf i egluro'r sefyllfa.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai targed cwblhau'r gwaith dilyniant i'r archwiliad hwn yw 31 Mawrth 2013.

**PENDERFYNWYD cytuno i wahodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio i'r cyfarfod nesaf i egluro'r sefyllfa.**

**Adroddiadau Eraill**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A" yn dilyn tri archwiliad sef –**

**Prif System Gyfrifo – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol**
**Cyflogau – Rhediadau BACS a**
**System Treth Di-Annedd – Adolygiad o Reolaethau Allweddol**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Gorffennaf 2012 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Medi 2012 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 46 |
| Crewyd papurau gwaith | 3 |
| Gwaith maes ar y gweill | 16 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Disgwyl Adolygiad | 3 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 24 |
| **Cyfanswm** | **98** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2012/13 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2013. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 1 yn 15%. Er mwyn cyfarfod â tharged diwedd chwarter 2, bydd angen rhyddhau adroddiad terfynol neu 11 archwiliad arall erbyn 30 Medi 2012 (h.y. cyfanswm o 35 allan o 98). Eglurodd bod y targed hwn wedi ei gyrraedd erbyn dyddiad y pwyllgor a bod disgwyliad i ryddhau tri adroddiad terfynol pellach erbyn 30 Medi 2012.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog y bwriadwyd cynnal ail ran o'r adolygiad o Ddiogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2012/13. Cynhaliwyd adolygiad o systemau papur yr adran yn ystod 2011/12 a'r cytundeb oedd y byddai Archwilio Mewnol yn adolygu diogelwch ffeiliau a gwybodaeth ar system electronig newydd yn ystod eleni. Fodd bynnag, derbyniwyd gwybodaeth bod y cynllun hwn wedi cael ei oedi, ac felly ni fydd diben cynnal yr archwiliad tan 2013/14.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.30am

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL – "RECRIWTIO - PROFION HUNANIAETH"** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DERBYN SYLWADAU'R PENNAETH ADNODDAU DYNOL YN UNOL Â DYMUNIAD Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD A SYLWEBU AR Y CYNNWYS** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd ar ganlyniad gwaith Archwilio Mewnol ar drefniadau'r Cyngor o gynnal profion hunaniaeth yn ystod y broses recriwtio i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012. Roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cynnwys crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad mewnol, oedd wedi ei osod yng nghategori barn 'C'.

1.2 Penderfyniad y Pwyllgor oedd **gwahodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.**

1.3 Gan na all y Pennaeth Adnoddau Dynol fynychu'r cyfarfod yma, mae wedi cwrdd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar 8 Tachwedd (yn ogystal â'r Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg) er mwyn esbonio'r datblygiadau diweddaraf yn y maes, gan gyflwyno tystiolaeth i arddangos y cynnydd sydd wedi ei wneud i weithredu argymhellion yr archwiliad.

## 2. CEFNDIR

2.1 Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol fel rhan o gynllun archwilio 2012/13 gyda'r bwriad o sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer cynnal profion hunaniaeth yn bodoli ar gyfer penodiadau newydd i'r Cyngor ac yr adlynir at y trefniadau.

2.2 Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Archwiliwyd sampl o ffeiliau personél swyddogion a benodwyd o'r newydd yn y flwyddyn ariannol 2011/12. O'r sampl a ddetholwyd roedd 25 o'r ffeiliau yng ngofal Gwasanaethau Cefnogol - Gweinyddiaeth Personél. Gwelwyd mai 10 o'r ffeiliau hyn yn unig oedd yn cynnwys tystiolaeth bod profion hunaniaeth wedi cael eu cynnal. Yn ogystal, roedd y llythyrau a anfonwyd i ymgeiswyr yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth anghywir - Deddf Noddfa a Mewnfudo 1996 yn hytrach na Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.

Ar gyfer gweddill y sampl, derbyniwyd eglurhad gan y swyddogion oedd â chyfrifoldeb am reoli a gweinyddu ffeiliau personél o fewn y gwasanaethau. Cadarnhaodd y swyddogion hyn nad oedd copïau o brofion hunaniaeth yn cael eu cadw ar y ffeiliau personél a mynegodd rhai o'r swyddogion nad oeddynt yn credu bod y profion yma yn eu cynnal.

Ymddengys o'r archwiliad nad oes canllawiau clir wedi eu sefydlu i reolwyr na'r swyddogion gweinyddu ffeiliau personél ar y trefniadau, cyfrifoldebau a'r pwysigrwydd o weithredu a chynnal profion hunaniaeth. O ganlyniad i'r diffyg tystiolaeth a chanllawiau, mae'r archwiliwr o'r farn nad oes gan y Cyngor reolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli'r risg o benodiadau anghyfreithlon.

2.3 Roedd cynllun gweithredu'r adroddiad yn cynnwys 5 argymhelliad:

Argymhelliad A01: Dylid diweddaru'r llythyrau personél i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth a sicrhau bod hyn yn cael ei sefydlu ar draws y Cyngor.

Argymhelliad A02: Dylid sicrhau bod y canllawiau ymarfer da ar gyfer rheolwyr mewn perthynas â threfniadau "Recriwtio, Dewis a Phenodi" sydd yn cynnwys y trefniadau ar gyfer gwirio tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU yn cael eu gosod ar y fewnrwyd.

Argymhelliad A03: Dylid hysbysu'r camau a ddylid eu cymryd cyn penodi swyddog newydd, gan gynnwys camau cynnal profion hunaniaeth, h.y. yr angen i wirio hunaniaeth, darparu llungopi wedi ei ardystio ynghyd â amlygu'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd pwy y dylid cynnal y gweithdrefnau yma.

Argymhelliad A04: Dylid cynnwys yn y canllawiau "Recriwtio, Dewis a Phenodi" bwysigrwydd cynnal y profion yn ogystal ynghyd â'r math o ddogfennau sy'n ddilys a'r gwiriadau disgwyliedig i'w cynnal yn unol â'r Ddeddf Lloches, Mewnfudo a Chenedligrwydd 2006.

Argymhelliad A05: Dylid sicrhau bod cofnodion profion hunaniaeth yn cael eu cadw ar y ffeiliau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Lloches, Mewnfudo a Chenedligrwydd 2006.

**2.4 Gellir cadarnhau fod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi cyflwyno dogfennu addasedig i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor sydd yn mynd i'r afael ag argymhellion A01 i A04. Y cam nesaf yw dosbarthu'r dogfennau hyn ymysg rheolwyr a goruchwylwyr y Cyngor gyda'r disgwyliad y bydd pob swyddog perthnasol yn gweithredu arnynt. O wneud hyn, bydd argymhelliad A05 yn cael ei weithredu hefyd.**

2.5 Mae'n fwriad gan Archwilio Mewnol gynnal archwiliad dilyniant cyn diwedd Rhagfyr 2012 er mwyn cynnig sicrwydd annibynnol i'r Pwyllgor fod yr argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel esboniad o ymateb y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r adroddiad Archwilio Mewnol "Recriwtio - Profion Hunaniaeth".

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **22 Tachwedd, 2012** |
| **TEITL** | **Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Adroddiadau Archwilio Mewnol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Ystyried Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Argymhellion Adroddiadau Archwiliad Mewnol** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **GWEITHREDIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Dderbyn yr Adroddiadau Cynnydd ar Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Argymhellion yr Archwiliadau Mewnol a Chynnig Sylwadau ar eu Cynnwys.** |

## 1. YMATEB I'R ARGYMHELLION

1.1 Yn dilyn ymddeoliad cyn Reolwr Gwarchod y Cyhoedd (Trwyddedu) yn 2012, a'r dyraniad o'i ddyletswyddau i'r ddau Reolwr Gwarchod y Cyhoedd presennol, amlygwyd nad oedd trefniadau gweinyddol o fewn Uned Trwyddedu Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn addas i bwrpas.

1.2 I'r perwyl yma fe ofynnwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal archwiliad o'r Uned Drwyddedu.

1.3 Mae'r ddogfen atodol yn cynnwys gwybodaeth o weithrediadau sydd i'w ymgymryd gan yr Uned Drwyddedu er ymateb i argymhellion yr archwiliad.

## CYNLLUN GWEITHREDU - UNED TRWYDDEDU

## TACHWEDD 2012

| Rhif | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Gweithredu | Diweddaraf |
|---|---|---|---|
| A01 | Dylid sicrhau fod datganiadau o'r polisïau perthnasol i Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 yn cael eu dyddio gyda dyddiad yr adolygwyd a chyhoeddwyd y polisi. | GMW | Dyddiadau mabwysiadu, adolygu a chyhoeddi wedi eu cadarnhau, trefniadau mewn lle i ddyddio'r polisïau yn unol â'r argymhelliad. |
| A02 | Dylid sicrhau fod datganiad o'r Polisi Gamblo ar gael ar wefan gyhoeddus y Cyngor. | | Trefniadau i'w gwneud gyda'r Swyddog Gwybodaeth a Gwasanaethau'r We i sicrhau fod y Datganiad Polisi Gamblo yn cael ei roi ar y we cyn y 31/12/12. |
| A03 | Dylid sicrhau fod y Polisi Trwyddedau yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd er mwyn ystyriaeth fanwl ac yna'i gyflwyno yn ôl i'r Cyngor llawn yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar y 16 Rhagfyr 2010. | | Polisi Trwyddedu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar y 10fed o Ragfyr 2012 er mwyn cymeradwyo newidiadau cyn i'r Polisi dderbyn sel bendith Aelod Cabinet/ Y Cabinet. Polisi yn ei gyfanrwydd yn cael ei adolygu yn 2013. |
| A04 | Dylid sicrhau fod cyfanswm y ffioedd a'r dyddiad y derbyniwyd yn cael eu mewnbynnu i'r system "Civica". | Swyddogion Trwyddedu | Mater hyfforddiant:<br>Canllaw wedi ei baratoi a fydd wedi ei gyflwyno erbyn 1/1/2013. |
| A05 | Lle mae taliad a dderbynnir yn cynnwys mwy na un ffi dylid sicrhau fod modd gweld cost pob eitem. | | |
| A06 | Dylai'r ffioedd diwygiedig gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Trwyddedu Canolog neu'r Arweinydd Portffolio perthnasol. | GMW | Fe fydd y rhestr ffioedd yn cael ei diwygio yn unol â'r argymhellion yn ystod y cyfnod adolygiad arferol y ffioedd ac yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn dilyn hynny. |
| A07 | Dylai'r rhestr ffioedd wahaniaethu rhwng cost gwiriad CRB a'r ffi am weinyddu'r cais. | | |
| A08 | Ni ddylid codi'r elfen TAW ar ffi gweinyddu'r gwiriad CRB. | Swyddogion Trwyddedu | Mater hyfforddiant:<br>Canllaw wedi ei baratoi a fydd wedi ei gyflwyno erbyn 1/1/2013. |
| A09 | Dylai'r Swyddogion Trwyddedu sicrhau fod y ffioedd yn cael eu codio i'r côd gwariant cywir yn y cyfriflyfr. | | |
| A10 | Dylai'r Swyddogion Trwyddedu gynhyrchu adroddiadau o'r system Civica (Flare) yn rheolaidd e.e misol. | | |

| Rhif | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Gweithredu | Diweddaraf |
|---|---|---|---|
| A11 | Dylid adolygu'r adroddiadau a chywiro unrhyw gamgymeriad a amlygwyd er mwyn sicrhau fod system Civica (Flare) yn gyfredol. | Swyddogion Trwyddedu | Mater hyfforddiant:<br>Canllaw wedi ei baratoi a fydd wedi ei gyflwyno erbyn 1/1/2013. |
| A12 | Dylid defnyddio'r adroddiadau i atgoffa dalwyr y trwyddedau o'r angen i adnewyddu'r drwydded berthnasol. | | |
| A13 | Er mwyn cydymffurfio â'r newidiadau i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 dylid gofyn i'r Uwch Swyddog Incwm gynhyrchu adroddiad misol o'r anfonebau Trwyddedau Eiddo sydd heb eu talu. | SLB | Cwblhawyd. |
| A14 | Dylai'r Uned Gwarchod y Cyhoedd ddatbygu Cofrestr Trwyddedu fydd yn agored i'r Cyhoedd. | SLB | Mae cyhoeddi'r gofrestr angen buddsoddiad i'n system TG. Prisiau wedi eu dderbyn a'r gwaith negodi termau yn parhau. |
| A15 | Dylid sicrhau fod y Gofrestr Trwyddedu ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cynnwys ceisiadau am drwyddedau newydd ynghyd ac unrhyw drosglwyddiadau i'r trwyddedau. | | |
| A16 | Gan fod cymaint o anghysondebau a chamgymeriadau yn yr anfonebau Trwyddedau Eiddo sydd yn ddyledus dylid gofyn i'r Uwch Swyddog Incwm greu adroddiad cyfredol o'r anfonebau sydd heb eu talu er mwyn galluogi'r Uned Gwarchod y Cyhoedd wirio'r adroddiad ac addasu'r system Civica (Flare) fel bo'r angen. | SLB | Cwblhawyd. |
| A17 | Dylid sefydlu trefn bendant o fewn yr Uned Gwarchod y Cyhoedd er mwyn gweinyddu Trwyddedau Eiddo sydd angen eu hatal. | SLB | Canllawiau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi yn y ddogfen 'Section 182' yn Hydref 2012. Rydym wedi mabwysiadu'r canllawiau hyn. |
| A18 | Dylid sicrhau mai enw daliwr y drwydded sydd yn ymddangos ar yr anfoneb. | Swyddogion Trwyddedu | Mater hyfforddiant:<br>Canllaw wedi ei baratoi a fydd wedi ei gyflwyno erbyn 1/1/2013. |

| Rhif | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Gweithredu | Diweddaraf |
|---|---|---|---|
| A19 | Dylai'r Uned Gwarchod y Cyhoedd ddefnyddio system dyledwyr y Cyngor i fonitro'r trwyddedau sydd wedi eu hatal ac i wirio pryd mae taliad wedi ei dderbyn. | SLB | Swyddogion Trwyddedu wedi cael mynediad i'r system dyledwyr erbyn hyn. Hyfforddiant ar sut i greu anfonebau i'w drefnu cyn 1/1/2013. |
| A20 | Dylai'r Uned Gwarchod y Cyhoedd godi anfonebau ar drwyddedau eiddo sydd angen eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn. | | |
| A21 | Dylid parhau gyda'r trefniadau i anfon llythyr atgoffa at dalwyr trwyddedau gamblo a thrwyddedau Deddf Loterïau. | SLB | Cwblhawyd. |
| A22 | Dylai'r Rheolwr Systemau Gweithredol drafod gyda'r Uned Gyllid Grŵp Amgylchedd er mwyn ail drefnu'r rhestr Côdau Gwariant at anghenion presennol yr Uned Gwarchod y Cyhoedd. | SLB | Cwblhawyd.<br>Am gychwyn defnyddio'r codau newydd o 1 Ebrill 2013. |
| A23 | Dylid sicrhau fod dyddiad pryd gasglwyd yr arian a'r cyfnod perthnasol yn cael eu gosod ar y daflen Derbyniadau Bancio TR 34. | Swyddogion Trwyddedu | Mater hyfforddiant:<br>Canllaw wedi ei baratoi a fydd wedi ei gyflwyno erbyn 1/1/2013. |
| A24 | Dylid talu'r arian a dderbynnir i mewn i gyfrif y Cyngor o leiaf unwaith yr wythnos. | | |
| A25 | Os yw'r Uned Gwarchod y Cyhoedd am sicrhau fod yr holl arian parod sy'n ei feddiant yn destun gwarchodaeth yswiriant, dylid sicrhau fod yr arian yn cael ei gadw mewn sêff wedi ei gloi os yw dros £500. | GMW & SLB | Mae trefniadau casglu arian parod o safbwynt taliadau o'r Marchnadoedd ar hyn o bryd yn destun gweithrediad yn dilyn Asesiad Risg. Un o argymhellion yn dilyn yr Asesiad Risg yw bod sêff yn cael ei leoli yn y Swyddfeydd ar gyfer arian parod sydd yn cael ei dderbyn fel taliad am drwyddedau neu daliadau o'r Marchnadoedd. Fe fyddwn yn asesu ymarferoldeb mynd ac arian wedi ei gronni yn dilyn casglu o Farchnad dydd Sadwrn i'r Swyddfa Bost erbyn amser cau. |
| A26 | Mewn achosion lle mae'n rhaid casglu arian tu allan i oriau gwaith arferol y Cyngor dylid sicrhau fod unrhyw arian sydd wedi ei grynhoi hyd at oriau cau'r Swyddfa Bost gael ei dalu i mewn er mwyn lleihau'r risg i'r swyddog perthnasol ac i gydymffurfio gyda gwarchodaeth yswiriant | GMW | |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEDI 2012** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Awst 2012 hyd at 30 Medi 2012.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2012:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 14 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 2 |
| Adolygiadau Grant | 5 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2012, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | Addysg | | B | Atodiad 1 |
| Penodiadau Llanw | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 2 |
| Gweinyddu Benthyciadau Car | Adnoddau Dynol | Uned Cefnogol | B | Atodiad 3 |
| Cardiau Credyd Barclaycard | Corfforaethol | | B | Atodiad 4 |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | A | Atodiad 5 |
| System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 6 |
| System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 7 |
| Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd | Darparu a Hamdden | Glanhau a Gofalwyr Adeiladau | B | Atodiad 8 |
| Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo'r Cyngor | B | Atodiad 9 |
| Uned Rheoli Asedau Clientau - Bancio Rhyngrwyd | Gwasanaethau Cymdeithasol | | A | Atodiad 10 |
| Gwasanaeth Broceriaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes | B | Atodiad 11 |
| Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | B | Atodiad 12 |
| Penodi Contractwyr Peirianyddol | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu | B | Atodiad 13 |
| Pontydd | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu | B | Atodiad 14 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC)** *(Cyllid).* Daeth yr adroddiad *Accounts Audit – General IT Controls: Council Tax, Housing & Council Tax Benefits and National Non-Domestic Rates (NNDR)*", a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010, i sylw Archwilio Mewnol yn gyntaf yn ystod Ebrill 2012 trwy law gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda cais i ystyried yr argymhellion a'u gweithrediad. Deallir mai cyfyngedig oedd dosbarthiad yr adroddiad gwreiddiol. Profwyd pedwar allan o'r saith argymhelliad yn ystod yr archwiliad yma. Bydd y meysydd sydd yn cael sylw y tri argymhelliad arall, sef rheoli newid a pharhad gwasanaeth, yn cael sylw penodol o fewn archwiliadau yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2012/13 ac felly bydd modd mynegi barn am ddeilliannau'r argymhelliad yma wrth adrodd ar ddarganfyddiadau yr archwiliadau hynny. O'r pedwar argymhelliad a brofwyd, gwelwyd bod gweithrediad wedi bod ar ddau ohonynt, gydag un yn y broses o gael ei gyflawni ac un heb ei weithredu hyd yma.
- **Tai Gofal Ychwanegol** *(Gwasanaethau Cymdeithasol).* Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13 y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys yr archwiliad o ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol. Gwelir bod Cymdeithas Tai Clwyd a Cyngor Gwynedd wedi nodi amcanion ar y cyd i ddarparu llety mewn Tai Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. Byddai'r tai hyn yn cynnwys amryw o weithgareddau ar gyfer y tenantiaid ac ar gyfer pobl ddibreswyl. Erbyn Medi 2012 roedd Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg wedi cael eu hadeiladu ar safle yn Y Bala, ac yn cynnwys 23 uned gyda dwy ystafell, a 7 uned gydag un ystafell. Ymchwiliwyd i rôl Cyngor Gwynedd fel rhan o'r bartneriaeth yma gyda Cymdeithas Tai Clwyd a'r dyletswyddau ynghlwm â'r gytundeb. O ystyried y gytundeb sy'n bodoli rhwng Cymdeithas Tai Clwyd a Chyngor Gwynedd, y casgliad yw nad oes risgiau ychwanegol i'r Cyngor gyda'r cynllun yma y tu hwnt i risgiau arferol comisiynu neu ddarparu gofal i bobl hŷn.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Blas am Oes *(Addysg)*
- Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Cymunedol *(Addysg)*
- Grant Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid *(Rheoleiddio)*
- Grant Canolfan Monitro Arfordir Cymru *(Rheoleiddio)*
- Grant Gwasanaeth Trafnidiaeth Lleol *(Rheoleiddio)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2012**

Recriwtio – Profion Hunaniaeth
Comisynu ar y Cyd gyda BILIPBC
Diogelwch TG mewn Ysgolion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2013**

Uned Trwyddedu
Diogelwch Gwybodaeth
Lleihau Baich Gwaith Athrawon

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Hydref 2012.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*
- Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau *(Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)*
- Cofnodi a Rheoli Gwyliau *(Corfforaethol)*
- Cynllunio'r Gweithlu *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Swyddogaethau Rheolwyr Safle *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth *(Corfforaethol)*
- Budd-daliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Derbyn incwm mewn swyddfeydd *(Cyllid)*
- System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Clybiau Ieuenctid *(Economi a Chymuned)*
- Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Safon 7 y Fframwaith Comisiynu *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Awst 2012 i 30 Medi 2012, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## PENODI YMGYNGHORWYR RHEOLI, ADRAN ADDYSG
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Gwirio fod ystyriaeth yn cael ei roi i addasrwydd penodi ymgyngorwyr rheoli o fewn yr Adran Addysg yn hytrach na'u cyflogi ar y gyflogres.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio rhestr o ymgynghorwyr sydd wedi eu defnyddio gan yr Adran Addysg a sicrhau bod profion statws cyflogaeth wedi eu hystyried cyn eu penodi. Gwirio hefyd fod trefniadau caffael priodol yn bodoli wrth eu penodi.

Adnabuwyd yr ymgynghorwyr drwy echdynnu adroddiad o'r cyfriflyfr yn nodi holl anfonebau'r Adran Addysg. Yna, aethpwyd drwy'r rhestr i adnabod enwau unigolion a allai fod yn ymgynghorwyr potensial, oedd wedi derbyn dros £5,000.

Prif Ddarganfyddiadau
Dim ond un achos gwelwyd lle 'roedd unigolyn wedi ei phenodi fel ymgynghorydd. 'Roedd yr unigolyn yma wedi ymddeol o'r Adran Addysg. Ni aethpwyd trwy'r prosesau caffael perthnasol i benodi'r unigolyn yma ar gyfer y gwaith. Er bod rhesymeg dros benodi'r unigolyn, nid oedd gwaith wedi ei wneud i weld os oedd cwmni neu bersonau perthnasol eraill a fyddai wedi gallu cyflawni'r gwaith ac felly dim modd o sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r Cyngor. Nodir fod newidiadau personél wedi bod o fewn yr Adran ers i'r gwaith ymgynghorol yma gael ei gyflawni.

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y drefn o benodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cadw cofnod o'r penderfyniad dros benodi ymgynghorydd hunangyflogedig neu eu rhoi ar y gyflogres.**
- **Dylid sicrhau fod Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor yn cael eu dilyn.**
- **Dylid ymdrechu i geisio talu anfonebau o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.**

# PENODIADAU LLANW
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniant priodol o benodi athrawon llanw o ran eu derbyn i fod ar restr gymeradwy'r Cyngor yn ogystal â sicrhau mai athrawon oddi ar y rhestr gymeradwy yn unig sy'n cael eu dewis ar gyfer gwaith llanw mewn ysgol.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio fod dogfennau cefnogol priodol ar gyfer yr athrawon llanw sydd ar y rhestr gymeradwy yn ogystal â gwirio trefniadau gweinyddol sydd ynghlwm i'r broses.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod rheolaeth fewnol dda ar y cyfan yn bodoli o fewn yr Uned Contractau a Chyflogau'r Adran Addysg, ond mae rhai meysydd lle y gellid tynhau ychydig ar y rheolaeth. Deallir fod swyddog newydd wedi ei phenodi yn ystod y flwyddyn i ymgymryd â'r dyletswyddau o sicrhau fod datganiadau CRB yn cael eu derbyn cyn i'r athrawon llanw ddechrau cyflenwi ac o dderbyn geirdaon. Bydd hyn felly o gymorth i liniaru'r risg o unrhyw unigolyn amhriodol yn gweithio ar eu pen eu hunain gyda phlant a phobl ifanc.

Un o'r prif argymhellion yn yr adroddiad yma yw'r gofyn i ail-wneud gwiriadau CRB yn unol ag ymarfer da, sef pob tair blynedd. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau mai athrawon addas yn unig sy'n cael parhau i fod ar restr llanw'r Cyngor. Eto, deallir fod trafodaeth ar y gweill ynglŷn â hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth penodiadau llanw gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod dau eirda'n cael ei dderbyn ar gyfer unigolion sy'n ceisio i fod ar y rhestr athrawon llanw.**
- **Dylid sicrhau fod datganiad CRB yn cael ei dderbyn ar gyfer unrhyw athro llanw cyn iddynt ddechrau gweithio mewn ysgol.**
- **Dylid adnewyddu gwiriadau CRB yn gyfnodol.**
- **Dylid creu canllawiau penodi athrawon llanw i'w gylchredeg i Benaethiaid ysgolion yr Awdurdod.**
- **Dylai swyddogion perthnasol fynychu cwrs Diogelu Data'r Cyngor.**

# GWEINYDDU BENTHYCIADAU CAR
## Adnoddau Dynol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y broses o weinyddu ceisiadau am fenthyciad car yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a'r canllaw 'Trefn y Cynllun Cymorth i Brynu Car' a bod y Cyngor yn derbyn dogfennaeth ddigonol gyda'r ceisiadau yn ogystal â sefydlu cytundeb gyda'r unigolyn. Yn ogystal, sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adhawlio'r benthyciad.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o geisiadau benthyciadau car a gwirio mai ceisiadau awdurdodedig yn unig a broseswyd. Gwirio os proseswyd y ceisiadau yn unol â'r rheolau a gwirio os derbyniwyd dogfennaeth ddigonol gyda'r ceisiadau. Cadarnhau bod y trefniadau ar gyfer cyfrifo ac adhawlio benthyciadau yn ddigonol ac yn cydymffurfio â'r rheolau a sicrhau bod cytundeb yn cael ei sefydlu ar gyfer pob benthyciad.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan gwelwyd fod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer gweinyddu benthyciadau car. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer ceisiadau; roedd ffurflen gais wedi ei chyflwyno ac yn gyflawn ar gyfer pob benthyciad car yn y sampl. Yn ogystal, mae gan y Cyngor gytundeb safonol a gaiff ei sefydlu rhwng y Cyngor a'r ymgeisydd am fenthyciad.
Ar gyfer pob benthyciad yn y sampl, gwelwyd bod cyfrifiad y benthyciad yn gywir a'r gyfradd llog priodol wedi ei ddefnyddio, a bod symiau'r ad-daliadau'n gywir ac yn cael eu didynnu o gyflogau'r swyddogion yn fisol.
Nodwyd, fodd bynnag, fod dau fersiwn wahanol o'r ddogfen 'Trefn y Cynllun Cymorth i Brynu Car' yn ymddangos ar y Mewnrwyd.
Defnyddir system electronig gan yr Adran Adnoddau Dynol ar gyfer prosesu a gweinyddu ceisiadau benthyciadau car a gwelwyd bod y dogfennau cywir a chyflawn yn unol â'r cynllun yn y mwyafrif o'r sampl a ddetholwyd. Er hyn, adnabuwyd ambell achos lle nad oedd tystiolaeth a dogfennau digonol ar ffeil gan y Gwasanaethau Cefnogol o fewn Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod y benthyciad car yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gweinyddu benthyciadau car gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru tudalennau mewnrwyd Adnoddau Dynol i sicrhau mai rheoliadau cyfredol "Trefn y Cynllun Cymorth i Brynu Car" yn unig sy'n ymddangos.**

- **Dylid paratoi rhestr wirio o'r dogfennau perthnasol y dylai'r Gwasanaethau Cefnogol fod wedi'i dderbyn gyda phob cais am fenthyciad car a'i gwblhau ar gyfer pob cais benthyciad car sy'n cael ei dderbyn.**

# CARDIAU CREDYD BARCLAYCARD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau priodol yn bodoli dros ddyroddi cardiau credyd i swyddogion; bod unrhyw ddefnydd o'r cardiau yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a bod gweithdrefnau rheolaethol cadarn wedi eu sefydlu.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau dros ddyroddi cardiau credyd, a gwirio bod defnydd priodol o'r cardiau a bod trefniadau priodol ar gyfer delio â datganiadau misol gan ddadansoddi trafodion mis Mawrth 2012. Cadarnhau bod unrhyw wariant a wneir yn ddilys a bod dogfennaeth ddigonol i gefnogi'r holl drafodion a bod unrhyw wariant wedi ei gyfeirebu'n gywir yn y cyfriflyfr ariannol. Adolygu unrhyw bolisïau/canllawiau a sefydlwyd i reoli defnydd o gardiau credyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod rheolaeth dda dros gardiau credyd y Cyngor gyda phroses ffurfiol wedi ei sefydlu i swyddogion ymgeisio am a derbyn cerdyn credyd. Mae'n angenrheidiol i ddeiliaid cerdyn credyd arwyddo datganiad yn cadarnhau eu bod yn derbyn Rheoliadau Cardiau Credyd y Cyngor ac mai eu cyfrifoldeb hwy yw diogelwch y cerdyn credyd sydd yn eu meddiant. Yn ogystal, gwelwyd tystiolaeth bod y cardiau credyd a dyroddwyd wedi eu cymeradwyo gan y Pennaeth Cyllid yn unol â gofynion Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.
Mae'r ddogfen 'Rheoliadau Cardiau Credyd' yn amlygu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer rheolaeth cardiau credyd, ond gellir eu cryfhau ymhellach trwy gynnwys cymal o beth fuasai goblygiadau camddefnyddio'r cerdyn a sut i sicrhau diogelwch y cerdyn wrth archebu ar-lein. Mynegodd nifer o ddeiliaid a gweinyddwyr cardiau credyd eu bod yn cael trafferthion derbyn derbynneb/anfoneb TAW dilys gan rai cwmnïau a dalwyd drwy gerdyn credyd. Gwelwyd bod pob ymgais yn cael ei wneud i geisio meddu ar y ddogfennaeth berthnasol.
Tynnwyd sylw'r archwilwyr i nifer fychan o drafodion gwariant oedd yn ymddangos y tu hwnt i bolisïau'r Cyngor. Gan nad oedd y trafodion hyn wedi eu cynnwys yn sampl yr archwiliad yma, bydd y materion hyn yn derbyn sylw mewn archwiliad ar wahân.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth cardiau credyd Barclaycard gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ychwanegu i'r 'Rheoliadau Cardiau Credyd' beth fuasai goblygiadau camddefnyddio cerdyn credyd y Cyngor, e.e. achos disgyblu.**

- **Dylid ymgynghori â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth fel y gellir cynnwys yn y 'Rheoliadau Cerdyn Credyd' gymal yn manylu ar sicrhau diogelwch manylion cerdyn credyd wrth archebu ar-lein, e.e. SSL - Secure Socket Layer.**

- **Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, dylai'r Gwasanaeth Cefnogol ddiddymu'r angen i gwblhau 'Archeb Swyddogol' ond yn hytrach addasu'r 'Cais i Ddefnyddio Cerdyn Credyd' gyda'r wybodaeth ychwanegol berthnasol.**

## SYSTEM DYLEDWYR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff trefniant y system dyledwyr ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru. Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y ddyletswydd o godi anfonebau ar gwsmeriaid wedi eu dynodi i swyddogion awdurdodedig gyda'r wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr yn gyflawn a chywir yn ogystal â sicrhau bod yr incwm yn a dderbynnir yn cael ei gyfeirebu'n briodol a bod cysoniadau yn cael eu cynnal ar sail reolaidd. Hefyd, sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle dros adennill a dileu dyledion gyda gwybodaeth yn cael ei ddarparu i reolwyr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio pa swyddogion sydd gyda'r ddyletswydd o godi a dosbarthu anfonebau i gwsmeriaid gan ddethol sampl o'r anfonebau a gwirio bod y wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr ariannol yn gywir. Gwirio fod unrhyw incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn cael eu postio yn y cyfriflyfr a bod cysoniad yn cael ei gwblhau'n rheolaidd. Gwirio os yw'r trefniadau adennill wedi'i ddogfennu a bod monitro adennill yn cymryd lle gan wirio os yw'r trefniadau ddileu dyledion yn cydymffurfio a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwirio bod monitro incwm yn erbyn cyllidebau yn cymryd lle.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod prosesau, gweithdrefnau a gwahaniad dyletswyddau priodol mewn lle ar gyfer casglu dyledion. Mae'r broses o greu dyled ar y cyfan yn cael ei weithredu gan y gwasanaethau perthnasol, gyda'r adfer yn cael ei weithredu a'i gyd-gordio gan y Gwasanaeth Incwm. Gwelwyd fod gweithdrefnau mewn lle gan y Gwasanaeth Incwm er mwyn gohebu â dyledwyr ynghyd â'r Gwasanaeth Cyfreithiol ac asiantaethau casglu. Adolygwyd sampl o ddyledion o 2011/12 y bu mewn anghydfod a gwelwyd tystiolaeth fod y Gwasanaeth Incwm yn gweithredu a chofnodi ar y system ac ar ffeiliau papur. Adolygwyd sampl o ddyledion oedd wedi eu dileu yn ystod 2011/12 a gwelwyd fod y camau wedi eu cymryd a'r awdurdodaeth am ddiddymu yn unol â'r disgwyl.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheolaethau Allweddol y System Dyledwyr gan fod y rheolaethau mewn lle ar y cyfan, ac y gellir dibynnu arnynt. Fodd bynnag, cynigir un argymhelliad:**

- **Dylid creu gweithdrefn o gynhyrchu adroddiadau sydd yn amlygu'r dyledion mewn anghydfod yn gyfnodol (e.e. yn fisol) fel ymdrech i sicrhau nad oes eitemau amhriodol yn eu plith.**

# SYSTEM GYFLOGAU - DIDYNIADAU TRETH AC YSWIRIANT CENEDLAETHOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod didyniadau treth ac yswiriant cenedlaethol unigolion a delir drwy'r amrywiol gyflogresi'n gyflawn a chywir a bod trefniadau a rheolaethau digonol yn bodoli dros ddiweddaru paramedrau a thalu'r didyniadau i drydydd parti.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio cywirdeb paramedrau'r system a sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau digonol yn bodoli rhwng y prosesau; dethol sampl o unigolion a chadarnhau bod eu didyniadau treth ac yswiriant cenedlaethol yn gywir ynghyd â sicrhau bod y defnydd o godau treth ac yswiriant cenedlaethol dros dro o fewn cyfyngiad amser a bod y didyniadau'n cael eu talu i drydydd parti'n amserol ac yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod mesurau mewn lle gan y Cyngor i gofnodi didyniadau priodol ar gyfer treth ac yswiriant gwladol. Nodwyd fod y system a defnyddir yn cael ei gefnogi gan gyflenwr sydd yn achrededig gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Nodwyd fod blaenoriaeth priodol yn cael ei roi gan y Gwasanaeth Cyflogau i sicrhau fod codau treth a graddfeydd yswiriant gwladol ar gyfer staff yn gywir a felly bod y didyniadau yn briodol. Adolygwyd y didyniadau ar gyfer sampl o gyflogau ar draws y cyflogresi gan eu cymharu â'r symiau disgwyliedig, a cafwyd hwy yn gywir. Gwelwyd fod prosesau a rheolaethau priodol i sicrhau fod y symiau sydd yn cael eu trosglwyddo i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gywir ac amserol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol didyniadau treth ac yswiriant cenedlaethol o'r System Gyflogau gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# SYSTEM GYFLOGAU - PARAMEDRAU AC ALGORITHMAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod paramedrau'r System Gyflogau'n cael eu diweddaru'n briodol a chywir i sicrhau cywirdeb taliadau cyflogau i weithwyr y Cyngor ynghyd â gwirio trefniadau rheolaethol dros algorithmau'r system gan gynnwys y prosesau i profi ac awdurdodi unrhyw newidiadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cynnwys gwirio cywirdeb paramedrau'r system er sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi; cadarnhau bod gwahaniad dyletswyddau digonol yn bodoli rhwng prosesau mewnbynnu ac awdurdodi amrwyiaethau i baramedrau ac algorithmau ynghyd â gwirio unrhyw adroddiadau eithriad perthnasol a gynhyrchir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y newidiadau i baramedrau statudol, megis didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol, yn cael eu hymgorffori o fewn bwletin diwedd blwyddyn gan gyflenwyr y system cyflogau, sydd yn achrededig gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nodwyd fod trefn o fewn y Gwasanaeth Cyflogau i wirio cywirdeb rhain.

Mae newidiadau sydd yn berthnasol i Cyngor Gwynedd yn unig, e.e. codiadau cyflog, yn cael eu mewnbynnu gan reolwyr y Gwasanaeth Cyflogau gyda trefn gwirio mewn lle. Nid yw newidiadau i baramedrau yn cael eu nodi mewn adroddiad eithriad, fodd bynnag mae'r cyfwng hawliau yn reolaeth lliniarol i sicrhau bod rheolaeth dros yr addasiadau i'r paramedrau.

Adolygwyd prif baramedrau'r system drwy gasglu allbrintiau o osodiadau ac yna eu cymharu â gwybodaeth o ffynonellau annibynnol a cafwyd hwy yn gywir. Gwiriwyd sampl o daliadau cyflog ar hap, er mwyn sicrhau bod y symiau tal sylfaenol, goramser a chyfraniadau pensiwn yn cyd-fynd â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Gwelwyd fod pob un o'r sampl hyn yn gywir.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol ym mharamedrau ac algorithmau y System Gyflogau gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

## GORUCHWYLIAETH RHEOLWYR AR DDYLETSWYDD
### Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd mewn Canolfannau Hamdden.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod Rheolwyr ar Ddyletswydd yn ymgymryd â'u dyletswyddau ac yn cyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r disgwyl. Archwiliwyd sampl o pedwar Canolfan Hamdden sef Canolfan Hamdden Arfon (Caernarfon), Canolfan Hamdden Glan Wnion (Dolgellau), Canolfan Hamdden Plas Silyn (Penygroes) ac Canolfan Hamdden Glaslyn (Porthmadog).

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod engreifftiau o ymarfer da a rheolaeth oddi fewn goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai o faterion goruchwyliaeth angen sylw pellach, sef sicrhau bod canllawiau / polisiau wedi eu cynhyrchu i gynorthwyo y Rheolwyr ar Ddyletswydd gyda'i gwaith, a dylid sicrhau bod trefniadau monitro mewn lle gan y Rheolwyr ar gyfer defnydd o'r wê gan bod risg uchel yn y mater hwn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid trefnu anfon copi arall o'u swydd ddisgrifiad i'r Rheolwyr ar Ddyletswydd sydd heb eu harwyddo a'u dychwelyd i Adnoddau Dynol, a sicrhau bod y rhain yn cael eu harwyddo a'u hanfon yn ôl i Adnoddau Dynol fel cadarnhad fod y rheolwyr yn derbyn a deall eu cynnwys.**

- **Dylid sicrhau bod canllawiau yn cael eu cynhyrchu gan yr Adran yn manylu ar ddyletswyddau Rheolwyr ar Ddyletswydd.**

- **Dylai Rheolwr y Ganolfan arwyddo a dyddio'r taflenni monitro i ddangos eu bod wedi eu gwirio. Yn ychwanegol dylid cynnal gwiriadau ar hap i sicrhau bod safon y gwaith yn dderbyniol. Dylid nodi'r dyddiadau y gwneir hyn, ac arwyddo'r ffurflen fel cadarnhad.**

- **Dylid sicrhau bod Rheolwyr y Canolfannau Hamdden yn derbyn adroddiadau o ddefnydd o'r we yn rheolaidd e.e. wythnosol, yn eu gwirio i sicrhau nad oes camddefnydd ac yna'n dyddio ac arwyddo'r adroddiad i gadarnhau bod y gwiriadau wedi eu cyflawni.**

- **Dylid sicrhau bod trefn gadarn mewn lle gan yr Adran ar Rheolwyr i sicrhau eu bod yn gwerthuso yn flynyddol.**

# TREFNIADAU GWARCHOD RHAG LEGIONELLA
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefnau digonol yn eu lle ar gyfer rheoli risg legionella a chlefyd y lleng filwyr yn sefydliadau'r Cyngor, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau Gweithgor Iechyd a Diogelwch (*Health and Safety Executive*).

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau a'r rhaglen rheoli risg legionella a chlefyd y lleng filwyr a gwirio os yw asesiadau risg yn cydymffurfio â gofynion yr HSE. Gwirio os yw unrhyw risgiau sy'n cael eu hadnabod yn derbyn sylw priodol a gwirio mai swyddogion cymwysedig sydd yn y rôl rheoli risg legionella a chlefyd y lleng filwyr.
Ni fydd yr archwiliad yn cynnwys cyfrifoldebau rheolwyr safle oherwydd bydd y testun yn derbyn sylw yn yr archwiliad "Swyddogaethau Rheolwyr Safle" sy'n rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2012-13.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn dilyn archwiliad gan yr Uned Iechyd a Diogelwch yn 2009 i mewn i'r digwyddiad legionella ym Mhwll Nofio Bangor, adnabuwyd bod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaethpwyd.
O ganlyniad i oedi ym mhenodiad Syrfëwr Diogelwch Adeiladau yn yr Uned Eiddo, bu oediad yn y broses tendro i benodi cwmni cymwysedig i gwblhau asesiadau risg legionella yn sefydliadau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r cynllun asesu risg legionella o fewn sefydliadau'r Cyngor bellach yn ei le ac yn parhau, gyda'r targed o orffen y cynllun yn unol â'r cynllun gwreiddiol, gyda sefydliadau risg uchel eisoes wedi derbyn asesiad risg legionella.
Gwelwyd bod sefydliadau'r Cyngor yn derbyn asesiad risg safonol sydd yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau perthnasol a gwneir argymhellion i gywiro unrhyw ddiffygion a adnabyddir.
Mae'r Cyngor bellach yn darparu hyfforddiant 'Rheoli Safle'n Ddiogel' ar gyfer eu rheolwyr safle sydd yn rhan o'r pecyn hyfforddiant corfforaethol.
Mae'r asesiad risg legionella yn darparu cyfundrefn rheolaeth argymhelledig ar gyfer sefydliadau er mwyn rheoli risg legionella, gyda threfniadau mewn lle yn yr Uned Eiddo i gwblhau'r gyfundrefn yma ar sefydliadau risg uchel y Cyngor yn fisol. Fodd bynnag, nid oes trefniadau mewn lle i'r gyfundrefn rheolaeth argymhelledig ar gyfer holl sefydliadau'r Cyngor.
Derbyniodd yr archwiliwr daenlen gan yr Adran Rheoleiddio o'r tyrau oeri a chynhwysyddion anweddu sy'n bresennol o fewn ffiniau'r awdurdod. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y 'Rheoliadau Hysbysu am Dyrau Oeri a Chyddwysyddion Anweddu 1992'.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth trefniadau gwarchod rhag Legionella gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Syrfewr Diogelwch Adeiladau a'r Rheolwr Diogelwch Adeiladau ymgymryd â'r broses gwerthuso a chwblhau ffurflen H4 er mwyn sicrhau bod eu cymhwysterau wedi eu cofnodi ar fas data hyfforddi corfforaethol y Cyngor.**

- **Dylid derbyn tystysgrifau yswiriant gan y darparwr yn flynyddol i wirio bod eu polisi yswiriant yn ddigonol ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn y cytundeb.**

## UNED RHEOLI ASEDAU CLIENTAU - BANCIO RHYNGRWYD
### Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r mesurau a'r trefniadau mewn perthynas â'r system fancio rhyngrwyd er mwyn sicrhau bod y rheolaethau mewnol yn gadarn.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau diogelwch y system o safbwynt technoleg, mynediad a gweithrediadau awdurdodedig. Sicrhau fod yr Uned Rheoli Asedau Clientau yn cydymffurfio gyda chanllawiau a thelerau'r banc wrth ddefnyddio'r system fancio rhyngrwyd. Sicrhau nad oes gan unrhyw swyddog heb awdurdod fynediad i'r system fancio rhyngrwyd a bod trefn gadarn yn bodoli ar gyfer awdurdodi trosglwyddiadau. Sicrhau fod trefn gadarn ar gyfer monitro cyfrifon y cleientiaid yn bodoli er mwyn sicrhau bod y cyfrifon banc yn cael eu cadw'n gyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod rheolaethau cryf mewn lle gan yr Uned Rheoli Asedau Cleientau ar gyfer y system fancio dros y wê. Gwelwyd fod y defnydd a wneir o'r system fancio yn ddiogel o safbwynt technoleg. Darganfuwyd fod trefniadau gweinyddiaeth briodol ar gyfer holl agweddau defnyddwyr y system fancio electronig; mae hawliau penodol wedi ei dyrannu ar gyfer pob defnyddiwr y system. Gwelwyd fod mesurau mewn lle petai methiant ar y system fancio rhyngrwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Uned Rheoli Asedau Clientau ar gyfer y system fancio dros y wê gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**GWASANAETH BROCERIAETH**
**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaethau yn eu lle yn y Gwasanaeth Broceriaeth er mwyn cael sicrwydd am briodoldeb ei drefniadau wrth ddewis darparwyr gofal cartref ar ran yr Awdurdod.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio os yw'r Gwasanaeth Broceriaeth yn cydymffurfio â'u canllawiau / polisiau a gwirio os yw defnyddwyr y cynllun yn derbyn gofal sydd o safon dderbyniol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da a rheolaeth oddi fewn i'r Gwasanaeth Broceriaeth. Fodd bynnag, gwelir bod rhai materion oddi fewn y gwasanaeth sydd angen sylw pellach, sef sicrhau bod canllawiau'r gwasanaeth yn cael eu cymeradwyo, trefniadau clir mewn lle ar gyfer cyflenwi absenoldebau, a phroses pendant a chlir ar gyfer cau achosion. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol y Gwasanaeth Broceriaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Tîm Broceriaeth gyflwyno'r llawlyfr i Reolwr Comisiynu er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.**

- **Dylid cadw cofnod bod y Swyddogion Broceriaeth wedi darllen a deall llawlyfr y Gwasanaeth Broceriaeth, unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo.**

- **Dylid sicrhau bod llawlyfr y Gwasanaeth Broceriaeth yn nodi'n glir y trefniadau i'w dilyn er mwyn cwblhau dyletswyddau'r swyddogion petaent yn absennol yr un pryd.**

- **Dylai'r Gweithwyr Cymdeithasol wneud pob ymdrech i ddefnyddio'r system goleuadau traffig yn briodol wrth ddanfon y ceisiadau i'r Gwasanaeth Broceriaeth.**

- **Dylid ystyried gyrru e-bost i Uwch Reolwyr y Gwasanaeth Darparu er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn cyflwyno'r wybodaeth briodol yn rheolaidd i'r Gwasanaeth Broceriaeth.**

- **Awgrymir dylid gyrru e-bost i'r Gweithwyr Cymdeithasol i'w hatgoffa i hysbysu'r Gwasanaeth Broceriaeth pan mae achosion angen eu cau.**

- **Dylid sicrhau bod y broses o gau achosion yn cael ei ychwanegu i'r llawlyfr â'r wybodaeth yn cael ei gylchredeg i'r swyddogion perthnasol.**

# GWEITHDAI - GORUCHWYLIAETH IECHYD A DIOGELWCH
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gweithwyr yng ngweithdai'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac yn gweithredu yn unol â Pholisi a Chanllawiau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Bydd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r gweithdai Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn gwirio eu trefniadau Iechyd a Diogelwch a sicrhau fod y gweithwyr yn ymwybodol o, ac yn gyfarwydd gyda, pholisi a threfniadau Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 10 o'r rheolaethau hyn. Y prif fater i'w nodi a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd tystiolaeth fod gan yr Uned Fflyd na'r Uned Iechyd a Diogelwch drefniadau mewn lle i ddilyn i fyny unrhyw ddiffyg a amlygwyd yn yr offer/cyfarpar pan archwiliwyd gan gwmnïau allanol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau goruchwyliaeth iechyd a diogelwch y gweithdai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cyrsiau/hyfforddiant y gweithwyr yn cael eu diweddaru a'u cadw yn gyfredol.**
- **Dylid sicrhau fod yr offer diffodd tân yn weladwy ac fod mynediad rhwydd atynt.**
- **Dylai'r cynwysyddion gwastraff gael eu gwagio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn gor lenwi.**
- **Os yw damwain wedi digwydd o ganlyniad i'r gweithiwr yn peido dilyn cymeradwyaethau'r asesiad risg, dylid dod a hyn i sylw'r gweithiwr.**
- **Dylid sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau fod unrhyw ddiffyg a amlygir i offer/cyfarpar mewn unrhyw adroddiad a dderbynnir o ganlyniad i ymchwiliad annibynnol yn derbyn sylw buan.**
- **Dylid sicrhau fod cofnod o unrhyw offer/cyfarpar sydd yn hen neu wedi torri ac sydd wedi cael ei waredu o'r gweithdai yn cael ei anfon i Rheolwr y Fflyd.**
- **Dylid sicrhau fod gweithwyr sydd wedi eu dynodi fel swyddog Cymorth Cyntaf yn derbyn hyfforddiant llawn pob 3 blynedd gyda hyfforddiant adfywiol pob blwyddyn.**
- **Dylid sicrhau fod cofrestr y Swyddogion Gweinyddol yn cael ei chadw'n gyfredol gyda manylion hyfforddiant diweddaraf y gweithwyr.**

# PENODI CONTRACTWYR PEIRIANYDDOL
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefn Ymgynghoriaeth Gwynedd o ddethol contractwyr peirianyddol yn effeithiol a thryloyw.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy edrych ar y drefn pwrcasu contractau gwerth uchel (dros £50,000) a'r trefniadau gogyfer pwrcasu gweithiau bychan (gwaith hyd at £50,000) gan sicrhau bod rheolaeth mewn lle gogyfer comisiynu'r gwaith i gontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 16 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 10 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd yr Uned Ffyrdd a Chaffael pob tro yn cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor wrth benodi contractwyr ar gyfer ymgeisio am weithiau rhwng £5,000 a £49,999 a dros £50,000.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau dethol contractwyr peirianyddol yn yr Uned Fflyd a Chaffael gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwyr Prosiect gysylltu gyda'r Rheolwr Datblygu Busnes pan mae angen gwahodd contractwyr i brisio am waith sydd ag amcan bris yn is na £50,000 er mwyn dewis gontractwyr oddi wrth y rhestr gymeradwy yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.**

- **Dylai'r Rheolwyr Prosiect hysbysu'r Rheolwr Datblygu Busnes am fanylion y tendrau a dderbyniwyd ynghyd â manylion y tendr llwyddiannus.**

- **Dylid sicrhau fod tystiolaeth ar gael i gadarnhau fod Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor wedi eu dilyn wrth benodi contractwyr.**

- **Dylid sicrhau fod cadarnhad ar y ffeil prosiect i ddangos fod yr holl gontractwr wedi derbyn y tendr yn gyflawn. Mae hyn yn un o'r camau sy'n cael ei awgrymu i rwystro twyll rhwng swyddogion a chontractwr unigol.**

- **Dylid cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau wrth werthuso tendrau a dderbynnir ar gyfer prosiectau sydd gyda gwerth a amcangyfrifir yn £50,000 neu fwy.**

- **Dylai'r Rheolwyr Datblygu Busnes gynllunio holiadur mesur perfformiad allweddol sydd yn addas ar gyfer cynnal y rhestr gymeradwy o gontractwyr.**

- **Ar ddiwedd y prosiect dylai'r Rheolwr Datblygu Busnes a'r Rheolwr Prosiect perthnasol gyfarfod i drafod cynnwys yr holiadur mesur perfformiad allweddol ar gyfer perfformiad y contractwr.**

# PONTYDD
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan Ymgynghoriaeth Gwynedd Gofrestr Asedau ar gyfer y pontydd sydd ar rwydwaith ffyrdd a bod trefn ddethol contractwyr ar gyfer cynnal a chadw'r pontydd yn effeithiol a thryloyw.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy edrych ar y drefn o reoli a chynnal y gofrestr asedau a sut mae'r Uned Adeiladwaith yn pwrcasu contractau gwerth uchel (dros £50,000) a'r trefniadau gogyfer pwrcasu gweithiau bychan (gwaith hyd at £50,000) gan sicrhau bod rheolaeth mewn lle gogyfer comisiynu'r gwaith i gontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod rheolaethau cadarn mewn lle gan yr Uned Adeiladwaith ar gyfer pontydd. Gwelwyd fod Cofrestr Asedau yn bodoli ar gyfer pontydd yng Ngwynedd; gwelwyd fod y gofrestr yn gynhwysfawr ond fod angen sicrhau ei fod yn gyfredol. Darganfuwyd fod trefn effeithiol ar gyfer dethol contractwyr; fodd bynnag gwelwyd fod gwallau yn y broses hon. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r rheolaethau sydd mewn lle ar hyn o bryd o fewn yr Uned Adeiladwaith.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb mewn perthynas â Pontydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod yr holl wybodaeth am y pontydd yn cael eu trosglwyddo i'r system BridgeStation cyn gynted ac sydd bosibl er mwyn sicrhau fod gwybodaeth lawn ar gyfer pob pont yn cael ei gynnwys yn y system.**

- **Dylai'r Uned Adeiladwaith gynnwys cyfiawnhad ac eglurhad digonol yn y ffolderi er mwyn esbonio pam fod y contractwr wedi eu dewis ar gyfer y prosiectau.**

- **Dylai'r Uned Adeiladwaith sicrhau eu bod yn derbyn dyfynbrisiau gan gontractwyr ar gyfer holl waith caiff ei ddethol tu allan i'r Fframwaith; dylid derbyn dyfynbris ar gyfer unrhyw waith yn cynnwys gwaith o achos brys.**

- **Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau ar gyfer cylchdroi contractwyr. Buasai'n ymarfer da petai'r Uned Adeiladwaith yn cadw cofnod o faint o waith caiff ei benodi i bob contractwr er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gwmni yn derbyn ffafriaeth amhriodol.**

- **Dylid cadw cofnod yn ffolder y prosiectau o sut dewiswyd contractwyr i'w gwahodd i gynnig dyfynbris. Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau dylid cadw cofnodion o bwy a roddir y contract iddynt, a'r rhesymau dros hynny (y pris isaf neu'r cynnig sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r Cyngor a pham), fel bod modd dangos gwerth gorau ac uniondeb y broses.**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2012/13 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2012)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **DERBYN YR WYBODAETH, YSTYRIED RISGIAU SY'N DEILLIO O'R TAFLUNIADAU GWARIANT AC INCWM YN ERBYN Y GYLLIDEB, A CHRAFFU PENDERFYNIADAU'R CABINET YNG NGHYSWLLT RHEOLI CYLLIDEBAU'R CYNGOR A'I ADRANNAU.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn sgil rhai o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Cyngor wedi newid o "drefniadau amgen", sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth" sef Cabinet, ers Mai 2012.

**2.** Mae'r Mesur hefyd wedi newid pwyslais y Pwyllgor Archwilio i graffu rhai materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb chwarterol ac adroddiadau rheolaeth trysorlys (ar fuddsoddi a benthyg).

**3.** Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi treialu'r dull hwn o weithredu yn y flwyddyn 2011/12, ac yn yr un modd, cyflwynir yr eitem hon a'r 2 eitem ganlynol fel eitemau "Cyllid" o'r fath newydd, yn hytrach nac eitemau "Archwilio" traddodiadol.

**4.** Cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 24 Gorffennaf 2012. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2012/13.

**5.** Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 20 Tachwedd o'r Cabinet.

**6.** Erbyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 20 Tachwedd fel arsyllwyr, a bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd.

**7. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet (cyflwynir "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd), a sylwebu fel bo angen.**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
20 TACHWEDD 2012

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU |
| **Pwnc:** | CYLLIDEB REFENIW 2012/13 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2012) |
| **Swyddog cyswllt:** | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

---

**Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2012) o'r Gyllideb Refeniw, a gofynnir i'r Cabinet ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, ac ystyried yr argymhellion gerbron, cyn penderfynu ar gamau priodol i reoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol.

---

**Cyflwyniad / Cefndir**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiadau adolygiad chwarter 1af i'r Cabinet ar 24 Gorffennaf 2012. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2012/13.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2012/13, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol 19 Chwefror 2013 ar yr adolygiad 3ydd chwarter.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae rheolaeth effeithiol, byw o'r Gyllideb Refeniw yn allweddol er iechyd ariannol y Cyngor. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1
Atodiad 2

## Cyllideb Refeniw 2012/13 Adolygiad Ail Chwarter

## Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir: | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Gor / (Tan) Wariant Gros 2012/13 £ | Trosglwyddiad i/(o) Gronfa neu Glustnodi Penodol £ | Trosglwyddiad i / (o'r) Balansau Cyffredinol £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
| **Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 381 | | | 381 |
| **Darparu a Hamdden** | 60 | | | 60 |
| **Addysg** | 58 | | | 58 |
| **Economi a Chymuned** | 197 | | | 197 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 155 | | | 155 |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | (187) | | | (187) |
| **Ymgynghoriaeth** | 520 | | | 520 |
| **Adnoddau Dynol** | (34) | | | (34) |
| **Cyllid** | (33) | | | (33) |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | (16) | | | (16) |
| **Gofal Cwsmer** | (28) | | | (28) |
| **Strategol a Gwella** | (90) | | | (90) |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol** | (16) | | | (16) |
| **Corfforaethol** | (1,467) | 1,475 | | 8 |
| **Cyfansymiau (net) =** | **(500)** | **1,475** | **-** | **975** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Canolog | 4,011 | 4,323 | 4,267 | (56) | 50 | (6) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog** | **4,011** | **4,323** | **4,267** | **(56)** | **50** | **(6)** |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,701 | 1,654 | 1,745 | 91 | 0 | 91 |
| Gwasanaeth Adnoddau | 7,712 | 7,625 | 8,059 | 434 | (250) | 184 |
| Eraill | 4,568 | 4,575 | 4,636 | 61 | 0 | 61 |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | **13,981** | **13,854** | **14,440** | **586** | **(250)** | **336** |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | 19,075 | 19,164 | 18,945 | (219) | 200 | (19) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,084 | 2,070 | 1,776 | (294) | 250 | (44) |
| Anabledd Dysgu | 11,105 | 11,081 | 11,286 | 205 | (150) | 55 |
| Iechyd Meddwl | 3,243 | 3,215 | 3,358 | 143 | (100) | 43 |
| Eraill | 2,961 | 3,057 | 3,007 | (50) | 0 | (50) |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Oedolion** | **38,468** | **38,587** | **38,372** | **(215)** | **200** | **(15)** |
| Digartrefedd | 732 | 776 | 848 | 72 | 0 | 72 |
| Eraill | 4,497 | 4,541 | 4,535 | (6) | 0 | (6) |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Tai** | **5,229** | **5,317** | **5,383** | **66** | **0** | **66** |
| **Cyfanswm Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **61,689** | **62,081** | **62,462** | **381** | **0** | **381** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaethau Canolog**

| | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:- Gwasanaethau Canolog** | **4,011** | **4,323** | **4,267** | **(56)** | **50** | **(6)** |

**Eglurhad:-** Cynnydd o (£36k) yn y tanwariant net a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn cynnwys cymysgedd o wahaniaethau, ond yn bennaf yn adlewyrchu arbedion staffio unwaith ac am byth.
Oherwydd y sefyllfa ffafriol yma, mae'r Adran yn awyddus i drosglwyddo cyllideb ar sail unwaith ac am byth er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo cyllideb o (£50k) ar sail unwaith ac am byth er mwyn lleddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar gyllidebau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

---

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

| | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:- Gwasanaethau Gweithredol** | **1,701** | **1,654** | **1,745** | **91** | **0** | **91** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir gorwariant ar y pennawd yma, yn bennaf oherwydd costau staffio (gweithwyr maes) ychwanegol, o ganlyniad i dderbyn mwy o achosion.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

| Maes:- | Gwasanaeth Adnoddau | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **7,712** | **7,625** | **8,059** | **434** | **(250)** | **184** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa sy'n cynnwys gorwariant o £375k ar Leoliadau All-Sirol, a gorwariant o £74k ar Wasanaethau Maethu. Oherwydd tanwariant ar rai penawdau cyllideb y Gwasanaethau Canolog a'r Gwasanaeth Oedolion, byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo (£50k) o'r tan ddefnydd a welir ar bennawd Gwasanaethau Canolog, a (£200k) o'r tan ddefnydd ar bennawd Pobl Hŷn ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant ar y pennawd Gwasanaeth Adnoddau.

---

| Maes:- | Eraill | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,568** | **4,575** | **4,636** | **61** | **0** | **61** |

**Eglurhad:-** Gorwariant net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf ffioedd llŷs ychwanegol o £34k yn dilyn cynnydd sylweddol mewn nifer achosion.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaeth Oedolion**

| Maes:- | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Pobl Hŷn** | **19,075** | **19,164** | **18,945** | **(219)** | **200** | **(19)** |

**Eglurhad:-** Cynnwys tanwariant o (£133k) ar Preswyl a Nyrsio, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn lleoliadau a chynnydd mewn achosion sy'n talu am ofal; gorwariant o £244k ar Ofal Cartref, ond hefyd darpariaeth demograffi o (£335k) ar gael ar gyfer tueddiad diswyliedig o dwf.
Oherwydd y sefyllfa tanwariant ffafriol a welir ar y pennawd yma, byddai'n briodol i drosglwyddo cyllideb ar sail unwaith ac am byth er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo cyllideb o £200k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant ar gyllidebau Plant a Theuluoedd.

---

| Maes:- | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Anabledd Corff** | **2,084** | **2,070** | **1,776** | **(294)** | **250** | **(44)** |

**Eglurhad:-** Cynnydd sylweddol o (£244k) yn y lefel tanwariant ers y chwarter cyntaf, oherwydd effaith rhai achosion hefo gofynion trwm yn dod i ben, gyda'r effaith mwyaf ar Preswyl a Nyrsio (£82k) a Gofal Cartref (£194k).
Oherwydd y sefyllfa tanwariant ffafriol ar y pennawd yma, byddai'n briodol i drosglwyddo cyllideb ar sail unwaith ac am byth er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb y Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo cyllideb o £250k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar Wasanaethau Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Anabledd Dysgu**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **11,105** | **11,081** | **11,286** | **205** | **(150)** | **55** |

**Eglurhad:-** Cynnydd sylweddol o £74k yn y gorwariant ers y chwarter gyntaf oherwydd gofyn ychwanegol am y wasanaeth, ac yn arbennig Gwasanaethau Dydd - £104k, Taliadau Uniongyrchol - £58k, Cartrefi Preswyl a Nyrsio Annibynnol - £74k, ond tanwariant o (£67k) ar Gynlluniau Cefnogol. Oherwydd sefyllfa tanwariant ar bennawd cyllideb Anabledd Corff (uchod), byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb Anabledd Dysgu.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo £150k o'r tan ddefnydd o dan bennawd Anabledd Corff ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r gorwariant ar y pennawd Anabledd Dysgu.

---

**Maes:-** **Iechyd Meddwl**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,243** | **3,215** | **3,358** | **143** | **(100)** | **43** |

**Eglurhad:-** O ganlyniad i dderbyniad o nifer o achosion newydd, mae sefyllfa gorwariant ar y pennawd yma, yn cynnwys gorwariant o £75k ar Preswyl a Nyrsio, a gorwariant o £56k ar Gynllun Lleoli Oedolion.
Eto, oherwydd sefyllfa tanwariant a bennawd cyllideb Anabledd Corff (uchod), byddai'n briodol trosglwyddo cyllideb er mwyn cwrdd ag elfen o'r pwysau ar gyllideb Iechyd Meddwl.

**Argymhelliad:-** Trosglwyddo £100k o'r tan ddefnydd a welir o dan bennawd Anabledd Corff ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r gorwariant ar y pennawd Iechyd Meddwl.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,961** | **3,057** | **3,007** | **(50)** | **0** | **(50)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf arbedion trosiant staff unwaith ac am byth o (£34k).

---

**Gwasanaeth Tai**

**Maes:-** **Digartrefedd**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **732** | **776** | **848** | **72** | | **72** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys gorwariant o £96k ar Llety dros dro, ac er fod y nifer achosion wedi aros yn weddol gyson, bu gostyngiad yn y nifer o dai cymdeithasol roedd ar gael, ac o ganlyniad defnyddiwyd fwy o'r ddarpariaeth 'Gwely a Brecwast' ar gost uwch. Yn ychwanegol, mae gorwariant o £33k ar Hosteli, oherwydd gostyngiad mewn derbyniad incwm, ond tanwariant o (£47k) ar Cynllun Lesu Tai oherwydd gostyngiad mewn costau.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Gwasanaeth Tai**

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,497** | **4,541** | **4,535** | **(6)** | | **(6)** |

**Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae cyfanswm gorwariant net o £381k, yn ostyngiad o (£55k) ers yr adolygiad chwarter cyntaf, pryd rhagwelwyd gorwariant o £436k. Mae'r Adran yn parhau i gymryd camau gyda golwg ar osgoi sefyllfa gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond pe byddai'r darlun diweddaraf yn parhau, yna bwriedir defnyddio cyfraniad o danwariant adrannol blaenorol a darpariaeth mewn cronfa penodol wrth gefn tuag at sefyllfa gorwariant posib. Byddai'r ffynonellau yma yn galluogi'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ostwng eu lefel gorwariant presennol i £83k.

## CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Darparu a Hamdden** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog** | **0** | **(29)** | **(97)** | **(68)** | **0** | **(68)** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Darparu** | **29** | **(298)** | **(176)** | **122** | **0** | **122** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Hamdden** | **4,547** | **4,453** | **4,459** | **6** | **0** | **6** |
| **Cyfanswm Darparu a Hamdden** | **4,576** | **4,126** | **4,186** | **60** | **0** | **60** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: DARPARU A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Canolog** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **(29)** | **(97)** | **(68)** | | **(68)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu arbedion mewn cyflog Pennaeth o (£49k) yn dilyn o'r newidiadau diweddar rhwng yr Adran Darparu a Hamdden a'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Hefyd, bu arbedion trosiant staffio unwaith ac am byth o (£29k) yn dilyn o'r ail-strwythuro o fewn Adran Darparu a Hamdden.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **29** | **(298)** | **(176)** | **122** | **0** | **122** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys gorwariant o £38k ar Gofal Preswyl oherwydd costau staffio a chostau gweithredol uwch, gorwariant o £19k ar Gofal Dydd oherwydd costau gweithredol uwch, gorwariant o £68k ar Gofal Cymunedol, a gostyngiad incwm mewn rhai penawdau eraill. Mae'r Adran yn adolygu'r trefniadau perthnasol i geisio sicrhau y byddant mewn sefyllfa ariannol lled niwtral erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: DARPARU A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Hamdden** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,547** | **4,453** | **4,459** | **6** | | **6** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys gorwariant net o £13k ar Gyfleusterau Hamdden, oherwydd gostyngiad mewn incwm am y tro, a thanwariant o (£7k) ar Ddatblygu Chwaraeon.

**Darparu a Hamdden**

Mae'r Adran yn ceisio sicrhau fod y rhagolygon diweddaraf o sefyllfa gorwariant net, yn gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond am y tro, pe byddai'r darlun cyfredol yn parhau, bwriedir defnyddio cronfa tanwariant blaenorol adrannol i'w glirio.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cludiant** | **4,682** | **4,436** | **4,498** | **62** | **0** | **62** |
| **Diswyddo Gorfodol/Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol** | **303** | **281** | **178** | **(103)** | **0** | **(103)** |
| **Integreiddio** | **363** | **354** | **264** | **(90)** | **0** | **(90)** |
| **All Sirol** | **250** | **250** | **308** | **58** | **0** | **58** |
| **Gwasanaeth Gwella Ysgolion** | **472** | **472** | **572** | **100** | **0** | **100** |
| **Strategaeth Cynhwysiad** | **0** | **449** | **380** | **(69)** | **0** | **(69)** |
| **Rheolaeth/Datblygol** | **3,648** | **3,718** | **3,749** | **31** | **0** | **31** |
| **Eraill** | **9,577** | **9,260** | **9,329** | **69** | **0** | **69** |
| **Ysgolion Datganoledig** | **67,284** | **67,284** | **67,284** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Addysg** | **86,579** | **86,504** | **86,562** | **58** | **0** | **58** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cludiant** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,682** | **4,436** | **4,498** | **62** | | **62** |

**Eglurhad:-** Gostyngiad o (£13k) yn y sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, yn cynnwys £90k o fethiant i gyflawni'r targed arbedion codi incwm am gludo disgyblion Ol-16 yn llawn eleni, ond tanwariant o (£27k) ar y ddarpariaeth ar gyfer trefniadau cludiant tacsis.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Diswyddo Gorfodol/Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **303** | **281** | **178** | **(103)** | **0** | **(103)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant am y tro ar bennawd sy'n gallu dod o dan bwysau sylweddol. Yn arferol fe roddir unrhyw danwariant perthnasol mewn cronfa wrth gefn tuag at ofynion yn y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar gyllideb gyffredinol yr Adran Addysg eleni, bwriedir defnyddio'r tanwariant yma er mwyn lliniaru rhywfaint ar y sefyllfa.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Integreiddio** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **363** | **354** | **264** | **(90)** | | **(90)** |

**Eglurhad:-** Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau gweithredu gan yr Adran, rhagwelir sefyllfa tanwariant eleni, ac o bosib fe welir arbedion pellach yn y blynyddoedd nesaf. Eto, fel a welir uchod, oherwydd pwysau ar gyllideb gyffredinol yr Adran eleni, bwriedir defnyddio'r tanwariant er mwyn lliniaru rhywfaint ar y gorwariant.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **All Sirol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **250** | **250** | **308** | **58** | **0** | **58** |

**Eglurhad:-** Gostyngiad o (£44k) yn y gorwariant o £102k a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, oherwydd gostyngiad yn y nifer o achosion disgyblion A.A.A. a gyfeirir.
Pe byddai'r darlun yma'n parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bwriedir defnyddio cronfa penodol wrth gefn i'r pwrpas o liniaru'r sefyllfa.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Gwella Ysgolion** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **472** | **472** | **572** | **100** | | **100** |

**Eglurhad:-** Yn gyson â'r darlun a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, sef gorwariant oherwydd llithriad hefo'r cynllun cyd weithio ar draws Gogledd Cymru. Mae'r diffyg am eleni yn cael ei bontio gan yr Adran Addysg drwy ddefnyddio tanwariant a welir ar benawdau eraill.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Strategaeth Cynhwysiad** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **449** | **380** | **(69)** | **0** | **(69)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa tanwariant ar y pennawd yma, yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, a derbyniad o grant perthnasol na ragwelwyd yn flaenorol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Rheolaeth/Datblygol**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,648** | **3,718** | **3,749** | **31** | | **31** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys ffioedd ymgynghorwyr allanol ychwanegol o £10k, a phryniant o wasanaethau ychwanegol gan Cwmni Cynnal o £22k.

---

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **9,577** | **9,260** | **9,329** | **69** | **0** | **69** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys costau £30k ychwanegol Biwro Troseddu oherwydd ymestyniad yn y gofynion diweddaraf i wirio mwy o staff, costau uwch ar gytundeb allanol perthnasol i ofynion addysg arbennig, a mân danwariant ar rhai penawdau eraill.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Ysgolion Datganoledig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **67,284** | **67,284** | **67,284** | **0** | | **0** |

**Eglurhad:-** Cyllidebau lle mae rheolaeth wedi'i ddirprwyo i gyrff llywodraethol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cefnogi Busnes** | **138** | **135** | **72** | **(63)** | **0** | **(63)** |
| **Marchnata a Gofal Cwsmer** | **670** | **680** | **728** | **48** | **0** | **48** |
| **Morwrol** | **(84)** | **(51)** | **146** | **197** | **0** | **197** |
| **Eraill** | **5,157** | **5,198** | **5,213** | **15** | **0** | **15** |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,881** | **5,962** | **6,159** | **197** | **0** | **197** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cefnogi Busnes** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **138** | **135** | **72** | **(63)** | | **(63)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant sy'n cynnwys arbedion trosiant staff o (£15k), arbedion o (£15k) wedi'u gwireddu ymlaen llaw o'r targed arbedion adrannol, incwm ychwanegol o (£13k) oherwydd cynnydd yn y nifer o denantiaid mewn Unedau Busnes, a thanwariant o (£15k) ar becynnau grantiau.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Marchnata a Gofal Cwsmer** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **670** | **680** | **728** | **48** | **0** | **48** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa gorwariant sydd wedi cynyddu £28k ers yr adolygiad chwarter cyntaf, ac yn cynnwys gostyngiad incwm o £20k yn y Canolfannau Twristiaeth, a chostau ychwanegol uwch o £28k mewn perthynas a threfniadau lleol yn ymwneud â'r Fflam Olympaidd.

## CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

### ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED

**Maes:-** **Morwrol**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(84)** | **(51)** | **146** | **197** | | **197** |

**Eglurhad:-** Yn yr adolygiad chwarter cyntaf, rhagwelwyd sefyllfa gorwariant o £271k. Bellach mae'r darlun wedi gwella, yn bennaf oherwydd incwm uwch o (£86k) yn yr Hafan Pwllheli, gostyngiad mewn incwm Traethau o £39k, a thanwariant pellach ar nifer o benawdau o (£29k).
Bwriedir isafu'r gorwariant net drwy gyfyngu gwariant ymhellach, ynghyd â defnyddio £87k o gronfa tanwariant blaenorol yr Adran.
Yn ychwanegol, penderfyniad y Cabinet yng nghyfarfod 24 Gorffennaf 2012 pan yn ystyried yr adolygiad chwarter cyntaf, oedd i ofyn i'r Pennaeth Economi a Chymuned i adrodd ymhellach ar "y cyfeiriad i ymateb i sefyllfa ariannol yr Hafan", a deallaf bydd yn adrodd i'r Cabinet ar hyn cyn y Nadolig.

---

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **5,157** | **5,198** | **5,213** | **15** | **0** | **15** |

**Eglurhad:-** Gorwariant net ar nifer o benawdau cyllideb.

## CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaredu Gwastraff | **3,857** | **3,869** | **4,034** | **165** | **0** | **165** |
| Safleoedd Gwaredu | **1,840** | **1,879** | **2,102** | **223** | **0** | **223** |
| Safleoedd Trosglwyddo a Thrin | **951** | **929** | **788** | **(141)** | **0** | **(141)** |
| Safleoedd Mwynderau | **890** | **864** | **764** | **(100)** | **0** | **(100)** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **3,949** | **3,994** | **3,960** | **(34)** | **0** | **(34)** |
| Casgliadau Gwastraff Masnachol | **207** | **223** | **375** | **152** | **0** | **152** |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff** | **11,694** | **11,758** | **12,023** | **265** | **0** | **265** |
| **Tiroedd Agored** | **825** | **805** | **753** | **(52)** | **0** | **(52)** |
| **Amlosgfa** | **(85)** | **(87)** | **(120)** | **(33)** | **0** | **(33)** |
| **Eraill** | **15,245** | **14,907** | **14,882** | **(25)** | **0** | **(25)** |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **27,679** | **27,383** | **27,538** | **155** | **0** | **155** |

**Argymhelliad:-** Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd adrodd yn ôl i'r Cabinet ar sefyllfa gwastraff yn gyffredinol a'r ymghlygiadau ariannol perthnasol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Gwaredu Gwastraff**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,857** | **3,869** | **4,034** | **165** | | **165** |

**Eglurhad:-** Costau £121k uwch o ganlyniad i dirlenwi fwy o dunnelli na'r targed gwreiddiol, ynghyd â chostau uwch o £44k gwaredu coed a gwastraff gwyrdd.

**Maes:-** **Safleoedd Gwaredu**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,840** | **1,879** | **2,102** | **223** | **0** | **223** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir gorwariant o £223k, sy'n gynnydd o £168k yn y sefyllfa gorwariant ers yr adolygiad chwarter cyntaf, yn cynnwys costau cyflogaeth a chostau fflyd uwch o £123k i ddelio efo'r cynnydd mewn gwastraff yn Ffridd Rasus, ond hefyd tanwariant o (£29k) ar gostau eiddo a gwasanaethau a chyflenwadau a chynnydd mewn incwm gwastraff masnachol o (£61k).
Yn safle Llwyn Isaf, mae gorwariant o £80k ar elifiant o ganlyniad i'r tywydd gwlyb a gafwyd dros yr haf, ynghyd â gorwariant o £28k ar nifer o benawdau, gan gynnwys costau fforddfraint ychwanegol a chostau thrafnidiaeth. Hefyd, bu gostyngiad incwm £77k o freindaliadau nwyon mewn perthynas â safle Cilgwyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Safleoedd Trosglwyddo a Thrin**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **951** | **929** | **788** | **(141)** | | **(141)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant yn bennaf o ganlyniad i'r oediad yn agor 'GwyriAD', sef y safle trin bwyd yn Llwyn Isaf (£173k), ond costau uwch o £44k i Antur Waunfawr.
Hefyd, mae tanwariant o (£38k) mewn costau gweithredol yng nghanolfan Caergylchu, arbedion o (£11k) mewn costau yn dilyn oediad mewn agor safle trosglwyddo Coed Ffridd Aron ar amser, ond costau ychwanegol o £37k o ganlyniad i ddiffyg capasiti ar safle Ffridd Rasus am gyfnod, oedd yn gorfodi cludo gwastraff oddi allan i'r ardal.

---

**Maes:-** **Safleoedd Mwynderau**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **890** | **864** | **764** | **(100)** | | **(100)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir tanwariant ar y pennawd yma am y flwyddyn, oherwydd arbedion o ganlyniad i'r oediad o ddau fis i agor safle mwynderau Blaenau Ffestiniog, ynghyd ag arbedion trosiant staff unwaith ac am byth yn y gwasanaeth.

## CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

## ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

### Maes Gwastraff

**Maes:-** **Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,949** | **3,994** | **3,960** | **(34)** | | **(34)** |

**Eglurhad:-** Gwelliant o (£78k) o'r sefyllfa gorwariant o £44k a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, sy'n adlewyrchu tanwariant (£163k) ar gasgliadau ailgylchu o ganlyniad i oediad mewn cyflwyno rhan o'r gwasanaeth, ond hefyd gwariant net uwch o £129k ar sawl pennawd yn cynnwys costau gweithredol uwch, a lleihad mewn derbyniad incwm grant.

---

**Maes:-** **Casgliadau Gwastraff Masnachol**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **207** | **223** | **375** | **152** | | **152** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir gorwariant ar y gwasanaeth yma, yn cynnwys costau £76k uwch ar waredu a thirlenwi, a gostyngiad mewn incwm o £110k gan fasnachwyr.
Mae'r Adran yn parhau i geisio lleihau costau gweithredol, drwy resymoli cylchdeithiau, ac hefyd denu contractau newydd.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Tiroedd Agored** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **825** | **805** | **753** | **(52)** | | **(52)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol o gontractau mewnol ac allanol.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Amlosgfa** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(85)** | **(87)** | **(120)** | **(33)** | | **(33)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa sy'n adlewyrchu incwm uwch na ragwelwyd yn wreiddiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **15,245** | **14,907** | **14,882** | **(25)** | | **(25)** |

**Eglurhad:-** Tanwariant net ar nifer o fân benawdau cyllideb.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio (Cynllunio,Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Rheolaeth Datblygu** | **641** | **627** | **592** | **(35)** | **0** | **(35)** |
| **Meysydd Parcio** | **(1,026)** | **(1,000)** | **(902)** | **98** | **0** | **98** |
| **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | **1,620** | **1,697** | **1,434** | **(263)** | **0** | **(263)** |
| **Eraill** | **10,050** | **9,902** | **9,915** | **13** | **0** | **13** |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **11,285** | **11,226** | **11,039** | **(187)** | **0** | **(187)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

**Maes:-** **Rheolaeth Datblygu**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **641** | **627** | **592** | **(35)** | | **(35)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir tanwariant am y tro, yn bennaf oherwydd derbyniad ffioedd incwm uwch na'r targed gwreiddiol ac yn arbennig yn berthnasol i geisiadau am gynlluniau mawr.

---

**Maes:-** **Meysydd Parcio**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(1,026)** | **(1,000)** | **(902)** | **98** | | **98** |

**Eglurhad:-** Cynnydd o £19k o'r sefyllfa gorwariant net o £79k a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, yn cynnwys gostyngiad incwm mewn ffioedd parcio, dirwyon parcio a thocynnau tymor o £306k, arbedion mewn costau gweithredol o (£38k), a derbyniad incwm rhent blynyddoedd blaenorol o (£170k).

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,620** | **1,697** | **1,434** | **(263)** | | **(263)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant sy'n cynnwys effaith oedi cyn cwblhau'r broses recriwtio staff i'r Uned, a greodd arbedion staffio unwaith ac am byth o (£69k), tanwariant ar benawdau gwariant gweithredol eraill, gan gynnwys y gwasanaeth Gwybodaeth a Marchnata o (£81k), ac hefyd mae rhan o'r targed arbedion Rhesymoli Cylchdeithiau wedi'i gyflawni ymlaen llaw (£113k).

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **10,050** | **9,902** | **9,915** | **13** | | **13** |

**Eglurhad:-** Gorwariant net ar nifer o benawdau cyllideb.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ymgynghoriaeth** | **(526)** | **(452)** | **58** | **510** | **0** | **510** |
| **Eraill** | **1,140** | **1,080** | **1,090** | **10** | **0** | **10** |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **614** | **628** | **1,148** | **520** | **0** | **520** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| Maes:- | Ymgynghoriaeth | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(526)** | **(452)** | **58** | **510** | | **510** |

**Eglurhad:-** Mae'r rhagolygon diweddaraf, sef sefyllfa gorwariant o £510k yn adlewyrchu gostyngiad difrifol yn y lefel incwm ffioedd mae'r Adran wedi ei ddenu hyd yma eleni, ac o'r wybodaeth sydd ar gael, y lefel a amcangyfrifir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y lefel gwaith a ddisgwylwyd gan y Cynulliad, gwaith gwelliannau ffyrdd gan y Cyngor, gwaith allanol fel, er enghraifft, gwaith ffyrdd perthnasol i gynllun 'Wylfa B' a gwaith statudol ychwanegol angenrheidiol fel, er enghraifft, Deddf Dwr a Llifogydd. Mae'r Adran eisoes yn adolygu ei Cynllun Busnes i leihau costau gweithredol, gan gynnwys, y lefel staff perthnasol i gwrdd â'r lefel gwaith cyfredol a disgwyliedig, a cheisio denu contractau a chomisiynau newydd, fyddai yn dod ag incwm ffioedd ychwanegol i'r Adran. Mae'r broses yma wrth gwrs yn cyflwyno her ychwanegol, ac yn adlewyrchu pwysigrwydd o geisio cydbwysedd rhwng colled staff hefo sgiliau arbennig, a'r gallu wedyn i ddenu a chyflawni gwaith newydd. Fe nodir fod yr Adran hefo darpariaeth wrth gefn ar gyfer costau diswyddo a chronfa tanwariant blaenorol adrannol o £216k. Hyd yma, ymddengys na tydi'r rhagolygon perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2013/14, ddim yn edrych yn addawol chwaith.

**Argymhelliad:-** Yn yr amgylchiadau, argymhellir fod Pennaeth yr Adran Ymgynghoriaeth yn parhau i adolygu'r sefyllfa ar gyfer eleni, ac ystyried hefyd y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bod yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn cyflwyno adroddiad fanwl a chynhwysfawr i'r Cabinet 18 Rhagfyr, ar fesurau i resymoli'r Adran i allu ymdopi â'r rhagolygon gwaith diweddaraf.

| Maes:- | Eraill | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,140** | **1,080** | **1,090** | **10** | | **10** |

**Eglurhad:-** Ni ddisgwylir problemau ariannol tebyg ar gyllidebau'r gwasanaethau Eiddo a Rheolaeth Adeiladu.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Derbyniad Llog Net** | **(729)** | **(729)** | **(651)** | **78** | **0** | **78** |
| **Targed Arbedion Trawsadrannol** | **(1,409)** | **(1,409)** | **(1,126)** | **283** | **0** | **283** |
| **Eraill Cyffredinol** | **0** | **0** | **(353)** | **(353)** | **0** | **(353)** |
| **Darpariaeth wrth gefn ar gyfer setliad cyflog 2012/13** | **1,475** | **1,475** | **0** | **(1,475)** | **1,475** | **0** |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | **(663)** | **(663)** | **(2,130)** | **(1,467)** | **1,475** | **8** |

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| Maes:- | Derbyniad Llog Net | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(729)** | **(729)** | **(651)** | **78** | | **78** |

**Eglurhad:-** Mae'r rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu gostyngiad o £78k eleni mewn derbyniad llog net, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau llog erbyn ail hanner y flwyddyn o'i gymharu â'r cyfraddau a dderbyniwyd yn gynharach.

---

| Maes:- | Targed Arbedion Trawsadrannol | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(1,409)** | **(1,409)** | **(1,126)** | **283** | | **283** |

**Eglurhad:-** Mae'r sefyllfa cyfredol yn adlewyrchu'r disgwyliad bydd y cyfanswm arbedion trawsadrannol a wireddwyd £395k yn is na'r targed am eleni, tra mae (£112k) o arbedion eraill wedi'u gwireddu ymlaen llaw, sy'n gostwng y diffyg net i £283k.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill Cyffredinol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **(353)** | **(353)** | | **(353)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa tanwariant ar nifer o benawdau, sy'n cynnwys tanwariant o (£42k) ar gostau trethi annomestig ar adeiladau'r Cyngor ei hun, tanwariant ar gostau yswiriant a rheoli risg o (£51k), ac hefyd rhagwelir lleihad yn y gofyn yn erbyn rhan o'r ddarpariaeth wrth gefn perthnasol i rai penawdau penodol o (£260k).

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Darpariaeth wrth gefn ar gyfer setliad cyflog 2012/13** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,475** | **1,475** | **0** | **(1,475)** | **1,475** | **0** |

**Eglurhad:-** Wrth lunio cyllideb 2012/13 fe wnaethpwyd ddarpariaeth ar gyfer ychwanegiad cyflog posib. Ymhellach i'r negodi cenedlaethol, ymddengys na fydd cynnig perthnasol i staff llywodraeth leol eleni, ac felly gellir rhyddhau'r ddarpariaeth i ddefnydd arall gan y Cyngor.

**Argymhelliad:-** Yng ngoleuni'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, a'r buddsoddiad fydd ei angen i sicrhau trawsffurfiad priodol a llwyddiannus, argymhellir fod y £1,475k yn cael ei gadw wrth gefn am y tro, hyd nes bydd manylion yr anghenion perthnasol yn fwy clir tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADNODDAU DYNOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Adnoddau Dynol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **Gwariant** | **3,565** | | | | | |
| | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(3,375)** | | | | | |
| | **Cyfanswm Net** | **190** | **193** | **159** | **(34)** | | **(34)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn cynnwys tanwariant o (£24k) oherwydd gwireddu rhan o'r targed arbedion 2013/14 ymlaen llaw, ynghyd â thanwariant o (£10k) ar nifer o benawdau cyffredinol fel costau arlwyaeth a chostau teithio.

**ADRAN: CYLLID**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cyllid** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **Gwariant** | **7,491** | | | | | |
| | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(6,394)** | | | | | |
| | **Cyfanswm Net** | **1,097** | **980** | **947** | **(33)** | | **(33)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant net o (£33k), yn cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth o (£91k) o ganlyniad i effaith trosiant a chyfnodau mamolaeth, gwariant uwch o £45k ar gynnal eiddo, a gorwariant o £10k ar ofynion cyfathrebu i gynorthwyo'r cyhoedd hefo'r newidiadau yn y maes budd-daliadau yn sgil deddfwriaeth 'Diwygio Lles'.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL**

| | | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Democratiaeth a Chyfreithiol** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **Gwariant** | **6,169** | | | | | |
| | | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(5,611)** | | | | | |
| | | **Cyfanswm Net** | **558** | **820** | **804** | **(16)** | | **(16)** |

**Eglurhad:-** Yn dilyn rhesymoli trefniadau'r Argraffdy, fe ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf byddai diffyg £167k eleni. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio arian o fewn cronfa adnewyddu'r Argraffdy, rhagwelir bellach bydd y diffyg am eleni wedi gostwng i £28k. Yn ychwanegol, fe welir tanwariant cyffredinol o (£27k) ar wasanaethau a chyflenwadau gweddill yr Adran, arbedion trosiant staff o (£11k), ac incwm ffioedd ychwanegol o (£8k) gan y Gwasanaeth Cofrestru.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GOFAL CWSMER**

| | | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gofal Cwsmer** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **Gwariant** | **11,486** | | | | | |
| | | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(9,456)** | | | | | |
| | | **Cyfanswm Net** | **2,030** | **2,017** | **1,989** | **(28)** | | **(28)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa tanwariant adrannol net o (£28k), ond yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn bennaf, gorwariant o £45k gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth, oherwydd methiant i wireddu targed arbedion o £92k, gorwariant o £42k ar feddalwedd, a tanwariant o (£93k) oherwydd arbedion trosiant staff. Fe welir hefyd tanwariant o (£27k) ar nifer o benawdau gan yr Uned Gofal Cwsmer, tanwariant o (£28k) oherwydd arbedion staffio gan yr Uned Gwybodaeth a Phrosesau, tanwariant o (£40k) gan yr Uned Eiddo, oherwydd yn bennaf, arbedion staffio unwaith ac am byth, a gorwariant o £20k gan yr Uned Cynllunio Argyfwng oherwydd methiant i wireddu ei targed arbedion.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: STRATEGOL A GWELLA**

| | | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Strategol a Gwella** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **Gwariant** | **5,991** | | | | | |
| | | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(5,157)** | | | | | |
| | | **Cyfanswm Net** | **834** | **639** | **549** | **(90)** | | **(90)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant adrannol net o (£90k), yn cynnwys tanwariant o (£17k) gan yr Uned Partneriaethu (arbedion costau staffio a thanwariant ar gyflenwadau), tanwariant o (£71k) gan yr Uned Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid oherwydd arbedion staffio (£49k) (yn rhannol oherwydd gwireddu targed arbedion 2013/14 ymlaen llaw), tanwariant costau teithio o (£7k), a thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau o (£15k).

**CYLLIDEB Y TIM RHEOLI CORFFORAETHOL**

| | | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Tim Rheoli Corfforaethol** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **Gwariant** | **763** | | | | | |
| | | **Incwm ac Ad-daliadau** | **(763)** | | | | | |
| | | **Cyfanswm Net** | **0** | **(11)** | **(27)** | **(16)** | | **(16)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir sefyllfa tanwariant ymylol am y tro, oherwydd tanwariant o (£14k) ar wasanaethau a chyflenwadau.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2012/13 - ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (30 MEDI 2012)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **DERBYN YR WYBODAETH, YSTYRIED Y RISGIAU YNGLŶN Â'R RHAGLEN GYFALAF, A CRAFFU PENDERFYNIADAU DRAFFT Y CABINET** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 20 Tachwedd ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 20 Tachwedd o'r Cabinet.

**3.** Erbyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 20 Tachwedd fel arsyllwyr, a bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau drafft y Cabinet (cyflwynir "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd), a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
20 TACHWEDD 2012

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2012/13 – 2014/15

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2012) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i'r Cabinet ffurfiol 20 Tachwedd 2012 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £113m am y 3 blynedd 2012/13 – 2014/15.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £5.412m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.9 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2012/13 i 2013/14.

**Rhan 4**: Gwariant 6 mis cyntaf 2011/12.

**Prif Gasgliadau:**

Gofynnir am gymeradwyaeth i gynnydd o £5.4m yn y rhaglen tair blynedd, ail-broffilio gwariant o £5.3m o 2012/13 i 2013/14.

Fe welir fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni wedi codi i dros £42miliwn, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd cyfredol wedi codi i bron £113miliwn, sy'n gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol presennol.

Bu cynnydd o 4% yn y lefel gwariant ar ddiwedd Medi eleni (2012/13) o'i gymharu â'r un cyfnod (6 mis) y llynedd.

Fe welwyd hefyd newid sylweddol mewn pecyn ariannu un cynllun, sydd yn ddarbodus ar ran y Cyngor i roddi sicrwydd i'r rhaglen gyfalaf cyfredol, a bydd yn rhyddhau adnoddau perthnasol a dderbynnir yn y dyfodol.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynhonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2012/13 – 2014/15.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar adolygiad 3ydd chwarter i gyfarfod 19 Chwefror 2013 y Cabinet.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n falch o weld bod y proffil gwariant hyd yma eleni i weld yn well na'r flwyddyn ddiwethaf ac mae cyfrifoldeb clir nawr ar arweinyddion prosiectau penodol i i sicrhau bod hynny yn parhau yn amlwg yn ystod y gweddill o'r flwyddyn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2012/13 i 2014/15

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Medi yn erbyn y sefyllfa diwedd Mehefin:

### CYMHARIAETH RHWNG Y CHWARTER CYNTAF A'R AIL CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y CHWARTER DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | CYFANSWM | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | CYFANSWM | |
| ADRAN | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 66 | 441 | 0 | 507 | 66 | 441 | 0 | 507 | 0 |
| Addysg | 7,529 | 9,538 | 1,744 | 18,811 | 6,207 | 11,960 | 1,780 | 19,947 | 1,136 |
| Cyllid | 59 | 0 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 362 | 401 | 0 | 763 | 341 | 491 | 0 | 832 | 69 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 7,386 | 6,338 | 37 | 13,761 | 6,662 | 8,163 | 342 | 15,167 | 1,406 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 7,379 | 6,900 | 4,995 | 19,274 | 8,917 | 6,560 | 4,995 | 20,472 | 1,198 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 125 | 1,733 | 816 | 2,674 | 223 | 1,635 | 816 | 2,674 | 0 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,245 | 2,295 | 2,000 | 7,540 | 3,137 | 2,440 | 2,000 | 7,577 | 37 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 10,223 | 6,302 | 4,916 | 21,441 | 9,488 | 6,921 | 4,916 | 21,325 | (116) |
| Rheoleiddio | 5,512 | 7,588 | 8,913 | 22,013 | 7,026 | 7,738 | 8,913 | 23,677 | 1,664 |
| Strategol a Gwella | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Tai Cyngor (Gweddillol) | 42 | 0 | 0 | 42 | 57 | 0 | 0 | 57 | 15 |
| Ymgynghoriaeth | 68 | 0 | 0 | 68 | 68 | 0 | 0 | 68 | 0 |
| Corfforaethol | 1 | 78 | 276 | 355 | 0 | 78 | 276 | 354 | (1) |
| **CYFANSWM** | **41,997** | **41,614** | **23,697** | **107,308** | **42,196** | **46,486** | **24,038** | **112,720** | **5,412** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £5.412m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| FFYNHONNELL ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | CYNNYDD/ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | (LLEIHAD) |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,860 | 4,039 | 4,039 | 4,860 | 4,039 | 4,039 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 5,630 | 10,179 | 4,414 | 5,794 | 11,279 | 4,450 | 1,300 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 19,040 | 17,540 | 11,303 | 20,024 | 19,440 | 11,608 | 3,189 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 3,217 | 2,351 | 2,096 | 2,109 | 2,340 | 2,096 | (1,119) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,377 | 1,965 | 527 | 1,847 | 1,965 | 527 | (530) |
| Cronfa Cyfalaf | 5,388 | 5,079 | 1,318 | 3,424 | 6,901 | 1,318 | (142) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 1,485 | 461 | 0 | 4,138 | 522 | 0 | 2,714 |
| **CYFANSWM** | **41,997** | **41,614** | **23,697** | **42,196** | **46,486** | **24,038** | **5,412** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **107,308** | | | **112,720** | |

**2.2 Benthyca Heb Gefnogaeth**
Cynnydd o £1,300,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Ysgol O M Edwards (Adran Addysg) - £500,000 yn 2012/13 a £500,000 yn 2013/14**, sef y buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer gwelliannau i'r ysgol yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn 01/03/12.

- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) - £287,050 yn 2012/13**, sydd wedi ei ariannu drwy fenthyciad Salix.

**2.3 Grantiau a Chyfraniadau**
Cynnydd net o £3,189,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Ein Treftadaeth (Adran Economi a Chymuned) £439,230 yn 2012/13, £686,610 yn 2013/14, a £105,060 yn 2014/15 = Cyfanswm Grant £1,230,900**
Derbyniwyd cadarnhad o grant sylweddol (£783,330) drwy ddwylo CADW (CADW sydd yn arwain ar Brosiect Twristiaeth Treftadaeth yng Nghymru), cyfraniad o dros £200,000 gan y Llywodraeth drwy'r Rhaglen Môn Menai, a hefyd cyfraniad o dros £200,000 gan y Partneriaid eraill sydd yn rhan o'r cynllun (gweler adroddiad Bwrdd 13 Rhagfyr 2011).

- **Grant Menter Trafnidiaeth Gynaliadwy (Adran Rheoleiddio) £700,000 yn 2012/13**
Derbyniwyd grant gan Llywodraeth Cymru drwy'r ganolfan Fenter Trafnidiaeth Gynaliadwy (Sustainable Travel Centre Initiative) ar gyfer amryw o gynlluniau sydd yn ymwneud a lonydd las, a mentrau beicio a cherdded.

- **Cynllun Lôn Las Ogwen (Adran Rheoleiddio) £529,050 yn 2012/13**
Ariannir y cynllun yma drwy gyfuniad o grantiau o wahanol ffynonellau, sef £250,000 Menter Trafnidiaeth Gynaliadwy, £229,050 Cyngor Cefn Gwlad a £50,000 Asiantaeth Ffyrdd Gogledd Cymru. Cefnogir y rhain drwy gyfrwng menter Cymunedau a Natur y Llywodraeth, er mwyn gwella Lon Las Ogwen o Felin Coetmor i Fethesda.

- **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Adran Rheoleiddio) £118,620 yn 2012/13**
  Cynllun yw hwn i greu a gwella hawliau tramwy e.e. gwaith o ddarparu dwy bont droed a giatiau yn Nyffryn Nantlle, ail agor llwybr yn dilyn erydiad yn Dolybont, Dinas Mawddwy, ayb. Ariannir hyn drwy gyfraniad gan y Cyngor Cefn Gwlad.

- **Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £250,000 yn 2012/13**
  Derbynnir grantiau gan y Llywodraeth fel cyfraniad ychwanegol ar gyfer costau pwrcasu at brosiect GwyriAD (£150,000), a chyfraniad at gostau'r lagŵn ar safle tirlenwi Llwyn Isaf er mwyn datblygu'r safle ar gyfer sefydlu prosiect GwyriAD.

- **Cynllun Ysgol yr Hendre (Adran Addysg) lleihau cyfraniad £355,000 a chynyddu Grant £307,000 yn 2012/13**
  Roedd ariannu gwreiddiol y cynllun yma yn cynnwys cyfraniad **(£355,000)** gan ddatblygwr preifat yn sgil cytundeb Adran 106 Tyddyn Pandy. Mae'r contract cyfreithiol bellach wedi ei chytuno gyda'r datblygwr, ac yn nodi fod y cyfraniadau i'w derbyn fesul rhandaliadau, rhwng 2018/19 a 2023/24. Gan fod hyn tu hwnt i oes y rhaglen gyfalaf arfaethedig, byddai'n ddoeth i benderfynu ar ffynhonell ariannu mwy pendant yn y cyfamser.

  Roedd yn ofynnol hefo rhai cynlluniau blaenorol i orfod ariannu ymlaen llaw cyn gallu hawlio grant. Maes o law, roedd hyn yn arwain at sefyllfa ble roedd yna ariannu ar gael i'w ryddhau o'r newydd. Fel rhan o'r pecyn ariannu diwygiedig, mae modd defnyddio £307,000 o'r ariannu yma.

  Gweler hefyd 2.5, 2.6, 2.7 a'r tabl yn 2.8 isod sy'n crynhoi'r ariannu perthnasol.

**2.4 Derbyniadau Cyfalaf**

Lleihad net o £1,119,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Ysgol yr Hendre (Adran Addysg) (£1,200,000) yn 2012/13.** Lleihau'r ddibyniaeth ar y derbyniad cyfalaf am werthiant safle'r hen ysgol oherwydd, am resymau masnachol, fe ohiriwyd yr ail-farchnata o'r safle am y tro. Mae'n ddarbodus i addasu'r cynllun ariannu er mwyn isafu'r ansicrwydd a risg i'r Cyngor oherwydd anweddolrwydd gwerth tir yn yr hinsawdd gyfredol.

**2.5 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Lleihad o £530,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) (£447,000) yn 2012/13**
  Cyfnewid cyfraniad refeniw trwy ddefnydd o Gronfa'r Adran (gweler 2.7 isod sy'n manylu ar y ffynhonnell ariannu amgen).

**2.6 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad net o £142,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Ysgol yr Hendre (Adran Addysg) £350,000 yn 2012/13**
  Fel rhan o'r pecyn ariannu diwygiedig, mae modd defnyddio £350,000 o falansau sydd yn y gronfa yma yn sgil gwahaniaethau hanesyddol rhwng y gofyniad yn y rhaglen gyfalaf gwreiddiol a'r lefel ariannu angenrheidiol terfynol gan y Cyngor.

- **Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) (£505,490) yn 2012/13**
  Addasiad mewn ffigwr llithriad o 2011/12 i adlewyrchu'r gwir sefyllfa.

**2.7 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £2,714,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Ysgol yr Hendre (Adran Addysg) £998,000 yn 2012/13**
  Fel rhan o'r pecyn ariannu diwygiedig, gellir cyfnewid £998,000 o'r cyllido drwy ddefnydd o'r Gronfa Anghenion Ariannu Cynlluniau Cyfalaf a sefydlwyd yn sgil yr adolygiad trydydd chwarter refeniw 2011/12.
- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) £800,000 yn 2012/13**
  Defnydd o Gronfa sydd yn gysylltiedig â Rheoli Carbon.
- **Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £447,000 yn 2012/13**
  Gwrthdroi'r cyfraniad Refeniw Adrannol (gweler 2.5 uchod) trwy ddefnydd o gronfa'r Adran.
- **Cynllun Allyriadau Amlosgfa Bangor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £216,840 yn 2012/13**
  Defnydd o Gronfa Allyriadau Amlosgfa Bangor.
- **Cynllun Ein Treftadaeth (Adran Economi a Chymuned) £51,510 yn 2012/13 a £48,050 yn 2013/14**
  Defnydd o'r Gronfa Cydariannu.
- **Cynllun Lôn Las Ogwen (Adran Rheoleiddio) £80,000 yn 2012/13**
  Defnydd o Gronfa Cydariannu a weinyddir gan yr Adran Economi a Chymuned.

**2.8 Cynllun Ysgol yr Hendre**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r camau perthnasol eglurwyd uchod -

| **Ffynhonnell ariannu:** | **Cyllideb Wreiddiol** | **Ariannu Diwygiedig** |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Grantiau a Chyfraniadau (2.3) | 355 | 307 |
| Derbyniadau Cyfalaf (2.4) | 1,200 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf (2.6) | 0 | 350 |
| Cronfeydd (2.7) | 0 | 998 |
| Cyfanswm | 1,555 | 1,655 |

Mae'r tabl uchod yn dadansoddi'r ariannu diwygiedig ar gyfer y cynllun yma, gydag ariannu ychwanegol o £100,000 ar gyfer cost dymchwel yr hen adeilad a diogelu'r hen safle. Mae hefyd yn dilyn, drwy ddefnyddio ffynonellau eraill sydd ar gael i'r Cyngor, pryd daw'r derbyniadau a'r cyfraniadau i law yn y dyfodol, bydd y rheiny ar gael i'r Cyngor o'r newydd.

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2012/13 i 2014/15 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2012/13 i 2013/14 hyd yma yw £5,330,260. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Ysgolion Ardal Dolgellau (Adran Addysg) £883,320
- Ysgolion Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) £879,660
- Cerbydau Cronfa Fflyd y Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £263,180
- Rhwydwaith TG (Adran Gofal Cwsmer) £164,000
- Diffyg Lle Ysgol Gynradd Llanrug (Adran Addysg) £135,860
- Peiriant Golchi Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £130,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £2,786,450

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu colled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 6 MIS CYNTAF 2012/13

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd yr ail chwarter (6 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2012/13 (blwyddyn gyfan) -

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Medi) 2012/13 £'000** | **GWIR WARIANT Y 6 MIS HYD AT 30/09/2012 £'000** |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 66 | 18 |
| Addysg | 6,207 | 833 |
| Cyllid | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 341 | 135 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 6,662 | 1,990 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,917 | 3,701 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 223 | 110 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,137 | 1,348 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,488 | 3,120 |
| Rheoleiddio | 7,026 | 2,134 |
| Strategol a Gwella | 4 | 0 |
| Tai Cyngor | 57 | 1 |
| Ymgynghoriaeth | 68 | 9 |
| Corfforaethol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **42,196** | **13,398** |

**4.2** Mae bron i £13.4m wedi ei wario yn ystod y chwe mis cyntaf, sef 32% o’r gyllideb.

| **CRYNODEB** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2012/13** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2011/12** | **CYNNYDD** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £42.2miliwn | £41.0miliwn | £1.2miliwn |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £13.4miliwn | £11.6miliwn | £1.8miliwn |
| Gwariant fel canran o’r gyllideb | 32% | 28% | 4% |

**4.3** Er gwaethaf ail broffilio sylweddol, mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni yn uwch na’r gyfran gyfatebol llynedd.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2012, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

---

## 1. CEFNDIR

Mae mabwysiadu Côd Ymarfer Rheolaeth Trysorlys 2009 CIPFA wedi gosod y sylfaen i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, sy'n cynnwys yr angen i benderfynu ar strategaeth ariannol ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae'r Côd hefyd yn argymell y dylid hysbysu aelodau ynghylch gweithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn felly'n sicrhau bod yr awdurdod hwn yn arddel Arfer Gorau yn unol ag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA.

Diffinnir Rheolaeth Trysorlys fel: "*The management of the local authority's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks."*

## 2. CEFNDIR ECONOMAIDD

Roedd economi'r byd yn wynebu adeg anwadal unwaith eto. Roedd y DU ac Ardal yr Ewro (ac eithrio'r Almaen) yn ymbalfalu i ddangos twf dirnadwy tra'r oedd economi'r UD yn tyfu'n araf. Crebachodd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) y DU 0.3% yn chwarter calendar cyntaf 2012 a 0.4% erbyn yr ail, gan adlewyrchu'r amodau economaidd anodd yr oedd busnesau a defnyddwyr yn eu hwynebu yn y wlad ac yn fyd-eang. Roedd busnesau'n fwy tebygol o weithredu strategaethau amddiffynnol gan dorri costau yn hytrach na chynyddu gwariant cyfalaf. Parhaodd yr amodau ariannol oedd yn effeithio ar aelwydydd i fod yn wan wrth i dwf cyflogau aros yn isel ac ar lefel is na chwyddiant am y rhan fwyaf o'r cyfnod. (Gellid

priodoli'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn GDP Ch2 i effaith gŵyl banc ychwanegol Jiwbilî'r Frenhines, a gellid adennill hyn yn Ch3.)

Dechreuodd chwyddiant, oedd wedi gwrthod symud drwy gydol 2011, ostwng yn araf. Aeth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) blynyddol o dan 3% am y tro cyntaf mewn dwy flynedd a hanner ym mis Mai gan ostwng i'w lefel isaf ers mis Tachwedd 2009 ym mis Mehefin ar 2.4%. Cynyddodd rhyw fymryn i 2.5% erbyn mis Awst. Er bod y cynnydd diweddar mewn prisiau nwyddau wedi peri pryder, mae'r cynnydd mewn prisiau olew a bwyd – yr olaf yn bennaf oherwydd cnydau bwyd gwael o ganlyniad i'r tywydd – dipyn yn is na phan oeddent ar eu hanterth yn 2010-11.

Fodd bynnag, roedd rhai mesurwyr gweithgarwch economaidd yn rhoi darlun mwy calonogol a hwyliog ond eto i gyd tueddu i gael eu cysgodi gan fesurau eraill oedd y rhain. Cynyddodd cyflogaeth 236,000 yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf ac roedd y gyfradd gyflogaeth ar ei huchaf ers y tri mis cyn mis Ebrill 2009. Gostyngodd cyfradd ddiweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) 0.1% yn y chwarter i 8.1%. Er bod y Gemau Olympaidd yn sicr wedi cael effaith, er gwaethaf ei natur dros dro, roedd y data gwaelodol yn dynodi rhagolwg mwy cadarn a chalonogol i'r economi.

Roedd y diffyg twf a'r gostyngiad mewn chwyddiant yn ddigon o berswâd i Fanc Lloegr ganiatáu pryniannau ased (QE) gwerth £50 biliwn ym mis Gorffennaf, gan wneud cyfanswm y QE yn £375 biliwn. Trafodwyd y posibilrwydd o dorri'r raddfa llog o'r lefel bresennol o 0.5% yng nghyfarfodydd Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc ym mis Mehefin a mis Gorffennaf; fodd bynnag ni fu sôn amdano wedyn sy'n awgrymu nad oedd yr opsiwn polisi hwn yn mynd i fod ar gael yn y dyfodol agos. Dechreuodd cynllun FLS y llywodraeth, oedd â'r bwriad i ostwng costau ariannu'r banciau, ym mis Awst. Bydd Banc Lloegr yn asesu ei effaith ar hwyluso llif credyd cyn ymrwymo i weithredu'r polisi ymhellach.

Roedd y banciau'n rhan o helynt y sgandal i newid cyfraddau LIBOR yn ystod yr amodau marchnad abnormal yn ystod anterth yr argyfwng ariannol yn 2007/2008. Derbyniodd Barclays welwyd tebyg iddi o'r blaen o £290 miliwn, roedd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) hefyd yn ymchwilio i HSBC, RBS, Citicorp ac UBS; enwyd Lloyds mewn achos llys yn yr UD. Roedd pedwar banc mawr y DU hefyd yn cael eu hymchwilio am gam-werthu cyfnewidion graddfa llog i fusnesau bychain.

Ymestynnodd Cronfa Ffederal yr UD ei bolisi QE trwy '*Operation Twist*', drwy brynu bondiau â dyddiadau hwy arnynt gydag enillion o drysorfeydd â dyddiadau byrrach arnynt yn yr UD. Wedi data cyflogaeth gwael am fis Awst aeth y Ffed ati i ryddhau ei bolisi ariannol ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Medi; ymrwymodd y Ffed i brynu gwerth $40 biliwn o warantau asiantaeth a gefnogir gan forgeisi pob mis hys nes fod y farchnad lafur yn gwella'n "sylweddol". Mae'r Ffed wedi gwneud addewid hefyd y bydd yn cadw'r cyfraddau llog yn isel hyd ganol 2015. Yng Ngroeg, llwyddwyd i atal ymadawiad sydyn ac anhrefnus o'r Ewro drwy ffurfio cynghrair o bleidiau o blaid yr ewro yn dilyn ail rownd o etholiadau seneddol. Bu i ranbarth yr Ewro ddioddef pwl newydd o straen wrth i gostau benthyca llywodraethau'r Eidal a Sbaen gynyddu'n gyflym a gorfu i Sbaen hefyd geisio'n swyddogol am *bailout* i fanciau'r wlad. Ymatebodd Banc Canolog Ewrop drwy gyhoeddi ym mis Medi ei gyfleuster *Outright Monetary Transactions* (OMT) sy'n galluogi i'r Banc brynu nifer anghyfyngedig o fondiau sofren 1-3 blynedd cyn

belled bod y sofren yn gofyn am gymorth o'r fath yn y lle cyntaf ac yn cadw at yr amodau llym sydd ynghlwm â phryniannau o'r fath.

Gostyngodd enillion gilt yn sydyn iawn gan gynyddu'r posibilrwydd y gallai enillion â dyddiadau byr iawn arnynt droi'n negatif. Gostyngodd enillion dwy flynedd i 0.06%, pum mlynedd i 0.48% a deg mlynedd i 1.45%. Er gwaetha'r tebygolrwydd y byddai'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) yn adolygu'r modd y mae'n cyflwyno giltiau yn 2012/13, roedd yna nifer o ffactorau i gefnogi'r giltiau: parhad Banc Lloegr i brynu giltiau dan raglen QE estynedig; buddsoddwyr yn ffafrio hafan fwy diogel bondiau llywodraeth y DU o gymharu â rhai'r sofrenni Ewropeaidd; ymrwymiad y glymblaid i ddisgyblaeth ffiscal drwy gadw at ei 'gynllun A' i leihau'r diffyg; pryniannau ar raddfa eang gan fanciau i gydymffurfio â gofynion byffer hylifedd yr FSA; a gwrth risg cyffredinol yn erbyn cefndir economaidd gwan. Gostyngodd cyfraddau benthyca Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn raddol (cadwodd y Bwrdd y ffin +0.90% uwchben y cynnyrch gilt cyfwerth ar gyfer benthyca newydd).

Gostyngodd cyfraddau'r farchnad arian dros y cyfnod chwe mis rhwng 0.2% a 0.6% ar gyfer aeddfediadau 1-12 mis.

## 3. RHEOLI DYLEDION

| | **Balans ar 01/04/2012 £'000** | **Dyledion Aeddfed £'000** | **Dyledion a ad-dalwyd £'000** | **Benthyciadau Newydd £'000** | **Balans ar 30/09/2012 £'000** | **Cynnydd/ Lleihad mewn Benthyciad** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | 113,865 | 860 | 124 | NIL | 112,811 | -1054 |
| Graddfa Cyfartaledd % / Bywyd (bl) | 5.85% / 31.22 bl | 10.5% | 9.71% / 1.16 bl | __% / ___ yrs | 5.86% / 31.00 bl | ------ |

Pery'r PWLB yn adnodd benthyca deniadol i'r Cyngor gan ei fod yn cynnig hyblygrwydd a rheolaeth. Arweiniodd y symudiad mawr i lawr yn enillion giltiau yn yr ail chwarter i gyfraddau PWLB ddisgyn ym mhob aeddfediad.

Ym mis Awst, cyhoeddodd Trysorlys ei Mawrhydi fanylion y '*Certainty Rate'* fydd yn galluogi i awdurdodau cymwys gael mynediad i arian PWLB yn rhatach, gyda disgownt 20 pwynt ar raddfa fenthyca safonol PWLB. Wedi'i gyhoeddi gyntaf yng Nghyllideb mis Mawrth 2012, mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi cyhoeddi'r fenter hon i gymell awdurdodau lleol i ddarparu rhagolygon cadarn o'u cynlluniau benthyca. Disgwylir i'r gyfradd hon gael ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2012.

Mae'r Cyngor wedi cwblhau *pro-forma* yn rhagdybio gofyn benthyca tebygol y Cyngor dros gyfnod o dair blynedd ac wedi ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 17 Medi 2012.

I'r Cyngor mae'r defnydd o adnoddau mewnol yn lle benthyca wedi parhau i fod y modd mwyaf effeithiol o ariannu £10.7m o wariant cyfalaf yn 2012/13. Mae hyn wedi gostwng y risg cyffredinol i'r trysorlys drwy leihau dyledion allanol a buddsoddiadau dros dro. Fodd bynnag, ni fydd modd cynnal y sefyllfa hon yn ystod y tymor canolig ac mae'r Cyngor o'r farn y bydd angen benthyca £5m er dibenion cyfalaf erbyn 2013/14.

Ni fu unrhyw weithgareddau aildrefnu dyledion yn ystod y cyfnod hwn.

## 4. GWEITHGARWCH BUDDSODDI

Mae’r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy’n gymesur â’r egwyddorion hyn.

**Buddsoddiadau**

| | Balans ar 01/04/2012 £’000 | Buddsoddiadau a wnaed £’000 | Buddsoddiadau a ad-dalwyd £’000 | Balans ar 30/09/12 £’000 | Cynnydd/ Lleihad mewn Buddsoddiadau £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Byrdymor mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | 47,630 | 221,865 | (225,865) | 43,630 | (4,000) |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | 0 | 35,000 | (10,000) | 25,000 | 25,000 |
| Buddsoddiadau mewn Awdurdodau Lleol Eraill | 5,000 | 5,000 | (5,000) | 5,000 | 0 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | 52,630 | 233,865 | (212,865) | 73,630 | 21,000 |

Mae diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i’r Cyngor. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti’r Cyngor sydd wedi’i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2012/13. Gellir buddsoddi o’r newydd gyda’r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau Lleol Eraill;
- Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA;
- Tystysgrifau Ernesau (CD’s) ac Ernesau Term gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu’r DU sydd o bwysigrwydd systematig i system fancio’r DU a banciau penodol nad ydynt yn y DU;
- Biliau Trysorlys, Giltiau Llywodraeth y DU a DMADF (Debt Management Office);
- Bondiau wedi’u cyflwyno gan Fanciau Datblygu Amlochrog, megis yr European Investment Bank a’r World Bank.
- Cronfeydd wedi’u cyfuno (cynlluniau buddsoddi ar y cyd) sy’n diwallu meini prawf OS 2004 Rhif 534 a diwygiadau dilynol.

Caiff ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at: Statws Credyd (lleiafswm y Cyngor yw statws o A- (neu gyfwerth) ar gyfer gwrthbartïon hirdymor ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody’s); amnewid diffyg credyd (credit default swaps); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP; mecanweithiau i gefnogi’r sofren / cefnogaeth posib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol; ynghyd â phris y cyfranddaliadau.

### Risg Credyd

**Diweddariad Gwrthbartïon**

Ym mis Mehefin cwblhaodd Moody’s ei adolygiad o fanciau gyda gweithrediadau cyfalaf byd-eang yn y farchnad, gan israddio statws tymor hir pob un ohonynt rhwng un a thri hicyn. Roedd y banciau ar restr fenthyca’r Cyngor ac a gafodd eu heffeithio gan yr israddio statws yn cynnwys Barclays, HSBC, Royal Bank of Scotland, yn ogystal â Royal Bank of Canada, JP Morgan Chase, BNP Paribas, Societe Générale, Credit Agricole/Credit Agricole CIB, Credit Suisse a Deutsche Bank. Yn ogystal, bu i’r asiantaeth israddio statws Lloyds Bank, Bank of Scotland,

National Westminster Bank a Santander UK plc. Ni israddiwyd unrhyw un o'r banciau oedd â statws tymor hir ar restr fenthyca'r Cyngor yn is na throthwy statws credyd isaf y Cyngor sef A-/A3.

Mae ansawdd credyd y gwrthbartïon wedi cryfhau'n raddol/wedi'i gynnal yr un fath yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, fel y gwelir yn y Dadansoddiad Sgôr Credyd sy'n cael ei grynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/2012** | 4.98 | A+ | 4.93 | A+ |
| **30/06/2012** | 5.19 | A+ | 3.00 | AA |
| **30/09/2012** | 3.74 | AA- | 3.48 | AA |

*Sgorio:*
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 27*
*Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

Yn dilyn y penderfyniad i fyrhau hyd adneuon gyda buddsoddiadau gwrthbartïon ym mis Mai eleni, mae'r Cyngor ers hynny wedi ymestyn yr hyd (gwnaed y penderfyniad ddiwedd mis Gorffennaf). Penderfynwyd ymestyn yr hyd o ganlyniad i fonitro datblygiadau economaidd a gwleidyddol yn y DU, yn Ewrop ac yn fyd-eang. Roedd y mesurau risg amrywiol a ddefnyddiwyd i asesu p'un a oedd sefydliadau ariannol yn teilyngu credyd ai peidio wedi dangos arwyddion parhaus fod pethau'n sefydlogi, ac mewn rhai achosion, gwelliant sylweddol.

Yn y cyfnod hwn o ymestyn cyfyngiadau hyd gyda banciau'r DU, Awstralia, Canada ac America, ailgyflwynodd y Cyngor y banciau cryfaf yn y sofrenni Ewropeaidd cryfaf yn ôl ar ei restr benthyca gymeradwy.

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw fuddsoddiadau gyda banciau nad ydynt o'r DU yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2012.

Atodir rhestr o wrthbartïon y Cyngor fel ag yr oedd ar 30 Medi 2012 er gwybodaeth yn Atodiad A.

### Trefniadau Cystodaeth Ddiogel

Sefydlodd y Cyngor gyfrif cystodaeth gyda King and Shaxson ym mis Awst 2012. Wrth agor cyfrif cystodaeth gyda King and Shaxson, mae gan y Cyngor bellach y gallu i ddefnyddio nifer o offerynnau buddsoddi cymeradwy fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Trysorlys 2012/13 ac i amrywio'r portffolio buddsoddi. Mae offerynnau buddsoddi sydd angen cyfleuster cystodaeth yn cynnwys Biliau'r Trysorlys, Tystysgrifau Adneuo, Giltiau, Bondiau Corfforaethol a Bondiau Cydwladol.

Wrth sefydlu trefniadau cystodaeth, mae'r Cyngor mewn gwell safle i ystyried defnyddio offerynnau buddsoddi eraill mewn ymateb i amodau credyd newidiol.

Buddsoddodd y Cyngor mewn Tystysgrif Adneuo gyda Standard Chartered Bank ym mis Awst 2012.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**

Amcangyfrifir mai incwm buddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi'i gyllidebu ar gyfer y flwyddyn yw £0.7m. Roedd y balansau arian cyfartalog sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ei falansau gweithio ac arian gwarged y Gronfa Bensiwn yn £76.3m yn ystod y cyfnod.

Mae cyfradd sylfaenol y DU wedi parhau ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Nid oes disgwyl iddo gynyddu hyd nes 2015/2016. Mae cyfraddau arian marchnad tymor byr wedi parhau ar lefelau isel iawn. Gwnaed ernesau newydd ar raddfa gyfartalog o 0.95%. Mae'r Cyngor yn rhagweld alldro buddsoddiad o £729,030 ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**
Bellach, mae'r hyn a ganlyn wedi'i ddatrys yng nghyswllt yr adneuon yng Ngwlad yr Iâ:

- ***Heritable*** - Disgwylir y bydd 88c/£ yn cael ei adfer i gyd. Mae 75% wedi'i adennill hyd yn hyn, a disgwylir 7% arall yn 2012/13 a disgwylir y 6% yn weddill yn Ebrill 2013.

## 5. CYDYMFFURFIO Â DANGOSYDDION DARBODUS

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2012/13, a osodwyd ym mis Mawrth 2012 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - gellir cael mynediad ato drwy'r linc hwn: **http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2012%20hyd%20at%20fis%20Mai/Cyngor%20Llawn/2012-03-01/cymraeg/08_04_(iii)%20Strategaeth%20Trysorlys.pdf.** Ceir y manylion yn Atodiad B.

## 6. RHAGOLYGON CHWARTER 3 – CHWARTER 4

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad gweithgarwch hwn ym mis Tachwedd 2012, mae twf economaidd yn parhau yn anwadal. Mae amodau credyd llym a thwf enillion gwan yn rhwystro gwariant corfforaethol a gwariant gan ddefnyddwyr. Mae'n debyg y bydd cyfraddau llog swyddogol yn parhau'n isel am gyfnod estynedig, fel y gwelir.

| | Dec-12 | Mar-13 | Jun-13 | Sep-13 | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |

## 7. CRYNODEB

Mewn cydymffurfiaeth â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae'r adroddiad hwn yn rhoi adroddiad crynodol o'r gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2012/13 i aelodau. Fel y dangosir yn yr adroddiad, ni thorrwyd unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus a mabwysiadwyd dull darbodus mewn perthynas â gweithgarwch buddsoddi, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd yn hytrach nag enillion.

**ATODIAD A**

## RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD (diweddarwyd 30/09/12)

### Adneuon Cyfnod Penodol / Cyfrifon Ar Alw

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £25m | Blwyddyn |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £20m | ~~Dros nos~~ uchafswm 35 diwrnod |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £20m | ~~Dros nos~~ Uchafswm ~~35~~ 100 diwrnod |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £20m | ~~Dros nos~~ Uchafswm ~~35~~ 100 diwrnod |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £20m | Uchafswm 100 diwrnod |
| Y DU | Clydesdale (National Australia Bank Group) **GWAHARDDWYD 28/09/11** | ~~£20m~~ | ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £20m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Y DU | Nationwide Building Society | £20m | Uchafswm 100 diwrnod |
| Y DU | Nat West (RBS Group) | £20m | ~~Dros nos~~ Uchafswm 35 diwrnod |
| Y DU | Royal Bank of Scotland (RBS Group) | £20m | ~~Dros nos~~ Uchafswm 35 diwrnod |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £20m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Canada | Bank of Montreal | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Canada | Royal Bank of Canada | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ blwyddyn |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £5m | ~~Uchafswm 6 mis~~ Uchafswm 100 diwrnod |
| Ffrainc | BNP Paribas *GWAHARDDWYD 13/09/11 * | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Ffrainc | Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) *GWAHARDDWYD 13/09/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Ffrainc | Credit Agricole SA *GWAHARDDWYD 13/09/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Ffrainc | Societe Generale *GWAHARDDWYD 11/08/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £5m | ~~Blwyddyn~~ Uchafswm 100 diwrnod |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV *GWAHARDDWYD 01/12/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £5m | ~~Blwyddyn~~ Uchafswm 100 diwrnod |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £5m | ~~Blwyddyn~~ Uchafswm 100 diwrnod |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £5m | ~~Blwyddyn~~ Uchafswm 100 diwrnod |
| Y Swistir | Credit Suisse * SUSPENDED 01/12/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| UDA | JP Morgan | £5m | Uchafswm 6 mis |

1) **Mae terfyn o £20m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.**
2) **Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda chyfyngiad gwlad o £10m hyd at uchafswm o 30% o'r portffolio i bob gwlad.**

| **Offeryn** | **Gwlad** | **Gwrthbartï** | **Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m** | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad** |
|---|---|---|---|---|
| Giltiau* | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | 6 mlynedd |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | Y DU / Iwerddon/ Lwcsembwrg | Cronfeydd Marchnad Arian | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Cronfeydd Marchnad Arian eraill a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Y DU | Cynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Biliau'r Trysorlys* | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | Blwyddyn |
| Biliau'r Awdurdod Lleol* | Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £10m | Blwyddyn |
| Bondiau a ddyrodir gan fanciau datblygu amlochrog* | Ewrop / America | *EIB, Council of Europe, Inter American Investment Bank* | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau a ddyrodir gan sefydliadau ariannol sydd wedi'u gwarantu gan lywodraeth y DU* | Y DU | Sefydliadau ariannol a warantir | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofren y tu allan i'r DU* | Tu allan i'r DU | Llywodraethau Sofren tu allan i'r DU | £5m | 3 blynedd |
| Benthyciadau Busnes i gwmnïau lleol** | Y DU | Fel y cytunir gan y Cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol | £1m | 10 mlynedd |

*Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.
** Bydd parhau â'r benthyciadau hyn yn cael ei gymeradwyo gan y broses a fanylir arni yn Atodiad Ch, Paragraff 6. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

## Gofyn Cyllido Cyfalaf

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2012/13 hyd at 2014/15 yn y tabl isod:

| | 31/03/2012 Gwir £'000 | 31/03/2013 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2015 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 152,241 | 155,904 | 160,361 | 166,915 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol | (114,341) | (113,085) | (111,969) | (110,975) |
| **Llai:** Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | (29) | 0 | 0 | 0 |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **37,871** | **42,819** | **48,392** | **55,940** |

## Balansau a Chronfeydd

Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd y Cyngor ar gyfer 2012/13 hyd at 2014/15 fel a ganlyn:

| | 31/03/2012 Gwir £'000 | 31/03/2013 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2015 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balansau a Chronfeydd** | 68,920 | 63,456 | 57,023 | 55,374 |

## Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

### (a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £190m ar gyfer 2012/13.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys yr ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2012/13 yn £170m.

Mae Pennaeth yr Adran Gyllid yn cadarnhau na thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd brig o £115m o ran benthyca.

**(b) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol**

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | **Terfynau ar gyfer 2012/13 %** |
|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydy |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydy |

| **Effaith Cyfraddau Llog** | **Lefel presennol ar 31/03/12 %** | **2012/13 Wedi ei awdurdodi %** | **Gwir ar 30/09/12 %** |
|---|---|---|---|
| **Sefydlog** | | | |
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog ar Ddyled | 100 | 100 | 100 |
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog ar Fuddsoddiadau | (100) | (100) | (66) |
| **Effaith Sefydlog Net** | 0 | **0** | 34 |
| **Cyfnewidiol** | | | |
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol ar Ddyled | 0 | 50 | 0 |
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol ar Fuddsoddiadau | 0 | (50) | (34) |
| **Effaith Cyfnewidiol Net** | **0** | **0** | (34) |

**(c) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog**

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf %** | **Terfyn Isaf %** | **Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/12** | **% y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/12** | **Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% | 938,562 | 0.97 | Ydy |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 1,373,452 | 1.42 | Ydy |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 4,108,953 | 4.25 | Ydy |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 4,581,868 | 4.75 | Ydy |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 85,608,589 | 88.61 | Ydy |

## (d) Dyled Gros a Net

Pwrpas y dangosydd hwn yw amlygu sefyllfa lle bod yr Awdurdod yn cynllunio i fenthyg o flaen angen.

| **Cyfyngiad uchaf ar Dyled i'w cymharu â Dyled Gros** | **2011/12 Gwir £m** | **2012/13 Amcangyfrif £m** | **Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau Dyledus (ar werth nominal) | 114 | 113 | Ydy |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill (ar werth nominal) | 0 | 0 | Ydy |
| **Dyled Gros** | 114 | 113 | Ydy |
| **Llai: Buddsoddiadau** | 47 | 36 | Ydy |
| **Dyled Net** | **67** | **77** | Ydy |

## (e) Benthyca Net a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth. Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y benthyca net dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, a hefyd ar ben hynny yr amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferth cwrdd â'r gofyn hwn yn 2012/13, ac ni ragwelir unrhyw drafferthion ar gyfer y blynyddoedd i ddod ychwaith. Mae'r farn hon wedi rhoi ystyriaeth i gymunedau presennol, cynlluniau sy'n bodoli eisoes a'r cynigion yn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo.

## (f) Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod

Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu'r Cyngor i reoli'r risg sydd ynghlwm â buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod.

Gosodwyd y terfyn ar gyfer 2012/13 ar £40m.

Polisi'r Cyngor ers dechrau'r wasgfa ariannol yn 2007 yw cadw aeddfeddiadau buddsoddi am hyd at uchafswm o 12 mis. Ni wnaed unrhyw buddsoddiad am gyfnod hwy na 364 diwrnod yn ystod y cyfnod hwn.

**(g) Risg Credyd**

Ymgorfforwyd y dangosydd hwn er mwyn adolygu dull gweithredu'r Cyngor o ran risg credyd. Mae'r Cyngor yn cadarnhau iddo ystyried diogelwch, hylifedd ac enillion, yn y drefn honno, wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

Mae statws credyd yn parhau'n elfen bwysig o asesu risg credyd, ond nid dyma'r unig nodwedd sydd wedi'i chynnwys yn asesiad yr Awdurdod o risg credyd gwrthbartïon. Defnyddia'r Awdurdod y teclynnau a ganlyn i asesu risg credyd:

- Statws credyd swyddogol y sefydliad ariannol a'i sofren;
- Mecanweithiau i gefnogi'r sofren;
- *"Credit default swaps"* (ble bônt wedi'u nodi);
- Prisiau cyfranddaliadau (ble bo hynny ar gael);
- Elfennau sylfaenol Economaidd, megis dyledion net y wlad fel canran o'i GDP;
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion, erthyglau, teimladau a momentwm y farchnad.

Gall y Cyngor gadarnhau fod pob buddsoddiad wedi'i wneud yn unol â'r meini prawf isafswm statws credyd a osodwyd yn Natganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2012/13:

- statws tymor hir A- neu gyfwerth;
- statws tymor hir AA+ neu gyfwerth ar gyfer sofrenni nad ydynt yn y DU.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2012/13 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 2 Tachwedd 2012 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 2 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 14 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 8 |
| Adroddiad Terfynol | 40 |
| Cyfanswm | 98 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 3 |

2.2 Targed perfformiad 2012/13 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2013. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod fod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 2 Tachwedd 2012 yn **40.8% -** allan o'r **98** archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2012/13 roedd **40** wedi eu rhyddhau yn derfynol. Er mwyn cwrdd â'r proffil chwarterol, bydd angen cau neu ryddhau adroddiad terfynol **19** archwiliad arall erbyn diwedd mis Rhagfyr (sef **59** allan o **98**). Disgwylir y bydd hyn wedi ei wireddu.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Roedd bwriad cynnal adolygiad o drefniadau Cydgyfeiriant Rhwydwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun archwilio, y disgwyliad oedd y byddai'r cynllun Cydgyfeiriant yn cael ei wireddu yn ystod 2012/13. Fodd bynnag, am resymau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor bu oedi yn y prosiect, ac felly bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn ystod 2013/14 (os yn briodol). Roedd 20 diwrnod wedi ei glustnodi ar gyfer yr archwiliad yma; caiff yr amser yma ei ddefnyddio er mwyn adolygu'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol.

3.2 Nid yw modiwl o fewn system reolaeth gofalwyr cartref CACI ar gyfer talu cyflogau wedi ei ddatblygu eto, felly nid oes diben cynnal yr archwiliad Cyflogau Gofalwyr Cartref - Rhyngwyneb Cyborg / CACI yn ystod 2012/13. Bwriedir defnyddio'r amser oedd wedi ei glustnodi ar gyfer yr archwiliad yma er mwyn adolygu defnydd y Cyngor o honoraria.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-03/2013 | Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **28.34** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 1-CORFF-08/2013ynni | Defnydd Ynni | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.82** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2013gw | Cynllunio'r Gweithlu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **13.65** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2013 | Swyddogaethau Rheolwyr Safle | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **23.63** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 1-CPGV-01/2013 | Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.62** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CTRT-02/2013 | Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC PQQ2 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.70** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CTRT-03/2013tai | Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **1.73** | Wedi ei gynllunio |
| 1-GRANT-AMG/2013cmac | Grant - Canolfan Monitro Arfordir Cymru | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.97** | Adroddiad Terfynol |
| 1-GRANT-AMG/2013fial | Grant - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.77** | Adroddiad Terfynol |
| 2ADN-ADY-GWY/2013 | Cofnodi a Rheoli Gwyliau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **25.84** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AE-TAL-04/2013tr | Prydlondeb Taliadau - Effeithlonrwydd Tracio Anfonebau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.31** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AN-ACY-03/2013ll | Cyllidebau Lleol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AO-ARL-01/2013 | Cardiau Credyd Barclaycard | 14.00 | 0.00 | **14.00** | **16.66** | Adroddiad Terfynol |
| AO-ARL-05/2013 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **27.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BC-PER-07/2013 | Recriwtio - Profion Hunaniaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.20** | Adroddiad Terfynol |
| BE-POL-07/2013 | Cytundeb Canlyniadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **5.16** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2013ases | Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **6.09** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013bao | Grant Blas am Oes | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **17.97** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013brec | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.99** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013ffg | Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.09** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013ks23 | Grant Refeniw 2011-12 y Cyfnod Sylfaen | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.45** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ELWa/2013 | Grant Addysg ôl-16 | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **0.54** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA23/2013 | Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.40** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA26/2013 | Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.33** | Wedi ei gynllunio |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA33/2013 | Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.21** | Adroddiad Terfynol |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA16/2013 | Penodiadau Llanw | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **23.75** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2013a | Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd | 22.00 | 0.00 | **22.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2013b | Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | 22.00 | 0.00 | **22.00** | **10.52** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAYC/2013c | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **ADNODDAU DYNOL** | | | | | | |
| **Uned Cefnogol** | | | | | | |
| BC-PER-05/2013 | Gweinyddu Benthyciadau Car | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **16.38** | Adroddiad Terfynol |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2013 | Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.36** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Archwilio a Risg** | | | | | | |
| AM-YS-03/2013 | Rheoli Risg Corfforaethol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2013kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.38** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2013e | System eGaffael | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AE-TAL-01/2013kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2013kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.19** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2013pr | Prif System Gyfrifo - Project Uwchraddio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.39** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2013bacs | Cyflogau - rhediadau BACS | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.57** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2013er | Adroddiadau Eithriad y System Gyflogau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.43** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2013hon | Defnydd Honoraria | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.28** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AL-CYF-01/2013kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AL-CYF-01/2013par | System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.77** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AL-CYF-07/2013 | System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.73** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-14/2013caci | Cyflogau Gofalwyr Cartref - Rhyngwyneb Cyborg - CACI | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AA-AR-01/2013paye | System paye.net | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.31** | Wedi ei gynllunio |
| AA-AR-03/2013 | Derbyn incwm mewn swyddfeydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.72** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AB-BD-01/2013dis | Budd-daliadau Dewisol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.46** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AB-BD-01/2013kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.70** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2013kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-01/2013sac | Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC) | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.43** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2013kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **8.42** | Adroddiad Terfynol |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | | | | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | | | | | |
| M-GMG-GW01/2013 | Sicrwydd Ansawdd Data a Gwybodaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.87** | Wedi ei gynllunio |
| **Glanhau a Gofalwyr Adeiladau** | | | | | | |
| M-GMG-J02/2013 | Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **17.00** | Adroddiad Terfynol |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| GDARP-D07/2013 | Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.79** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D08/2013 | Prosiect Rhesymoli Darpariaeth Anabledd Dysgu | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.97** | Wedi ei gynllunio |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2013c | Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.96** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-10/2013gen | Cynllun Genesis | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **4.99** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-10/2013pre | Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.64** | Wedi ei gynllunio |
| BE-POL-10/2013tiw | Cynllun Taith i Waith | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.85** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-C04/2013 | Cymunedau'n Gyntaf | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |
| **Ieuenctid** | | | | | | |
| EADDI01/2013clwb | Clybiau Ieuenctid | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **28.85** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1-CTRT-04/2013a | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.36** | Wedi ei gynllunio |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | | | | | |
| DDAT-AD06/2013 | Llwyddo'n Lleol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-AD06/2013pot | Cynllun "Potensial" | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.55** | Adroddiad Terfynol |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2013r | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.82** | Adroddiad Terfynol |
| **GOFAL CWSMER** | | | | | | |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-01/2013 | Cyfryngau Cymdeithasol | 0.00 | 20.00 | **20.00** | **2.28** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-04/2013 | Rheoli Newid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.26** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-06/2013a | Cleiant Tenau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.20** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-08/2013 | Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.91** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-09/2013 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2013b | Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| BA-EID-02/2013 | Cynllun Rheoli Asedau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| BA-EID-02/2013leg | Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.53** | Adroddiad Terfynol |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-PART/2013a | Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 5-GOF-GCY-PART/2013c | Tai Gofal Ychwanegol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.73** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-PaPh-1/2013 | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | 25.00 | 15.00 | **40.00** | **46.62** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-CYLL/2013 | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **15.86** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 5-GOF-X-CYMD/2013 | Grant Pecyn Camau Cyntaf | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **3.89** | Adroddiad Terfynol |
| GCC-01/2013 | Safon 7 y Fframwaith Comisiynu | 0.00 | 5.00 | **5.00** | **5.87** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GCC-05/2013 | Comisiynu ar y Cyd gyda BILIPBC | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GRH-GW01/2013ff | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| GRH-GW02/2013 | Uned Rheoli Asedau Clientau - Bancio Rhyngrwyd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.28** | Adroddiad Terfynol |
| GTG-SYS01/2013 | Uned Cefnogi Systemau Gofal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.86** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-BUS/2013all | Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **22.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-D02/2013 | Gwasanaeth Broceriaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **17.93** | Adroddiad Terfynol |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| GGWAS-P05/2013llety | Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.89** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2013 | Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.64** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| PBW-07/2013 | Glanhau Strydoedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **7.01** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-A55-01/2013 | Gweithfeydd - Cytundeb A55 | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **24.73** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-03/2013 | Cynllun GwyriAD | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.09** | Wedi ei gynllunio |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| BB-YSG-11/2013 | Uned Trwyddedu | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **20.61** | Adroddiad Terfynol |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 1-GRANT-AMG/2013gtc | Grant - Gwasanaeth Trafnidiaeth Lleol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.97** | Adroddiad Terfynol |
| 3-PROJ-TRAF/2013briw | Prosiect Pont Briwet | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.82** | Wedi ei gynllunio |
| 3-PROJ-TRAF/2013trac | Partneriaeth TraCC | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-CC-01/2013cy | Cludiant Cymunedol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2013ex | Cyfarpar gan Cyn-aelodau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.74** | Wedi ei gynllunio |
| BB-YSG-18/2013tg | Trefniadau TG i aelodau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.26** | Wedi ei gynllunio |
| **Perfformiad a Chraffu** | | | | | | |
| 1-CORFF-05/2013a | Gwireddu Prosiectau Arbed | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | | | | | |
| 3-YMG-CTRT/2013fa | Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.59** | Adroddiad Terfynol |
| 3-YMG-CTRT/2013pen | Penodi Contractwyr Peirianyddol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.32** | Adroddiad Terfynol |
| 3-YMG-CTRT/2013pont | Pontydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.65** | Adroddiad Terfynol |